

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Ymchwiliad i Addasiadau yn y
Cartref**

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i Addasiadau yn y
Cartref

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Christine Chapman (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Gwyn R Price
Llafur Cymru
Islwyn



Jenny Rathbone
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Ken Skates
Llafur Cymru
De Clwyd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Lindsay Whittle
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn Aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



Ann Jones
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Argymhellion y Pwyllgor	9
1. Cyflwyniad	13
Cylch Gorchwyl.....	13
Dull	14
2. Cefndir.....	15
Cyflwyniad.....	15
Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (2004). 15	
Adolygiad Jones (2005).....	16
Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (2009)	16
Cynnydd o ran gweithredu Adolygiad Jones (2010).....	17
Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Dai	18
3. Rôl Llywodraeth Cymru.....	20
Cyflwyniad.....	20
Y cynnydd a wnaed ers yr ymchwiliadau blaenorol.....	20
Arweinyddiaeth a Chyfeiriad Strategol.....	22
Atebolrwydd	24
Deddfwriaeth.....	24
Effaith Diwygio Lles	25
Barn y Gweinidog.....	25
Ein barn.....	26
Argymhellion.....	27
4. Y system addasiadau.....	29
Cyflwyniad.....	29
Barn gyffredinol ar y system addasiadau	31
Tai cymdeithasol a Grantiau Addasiadau Ffisegol	33
Addasiadau ar Raddfa Fach.....	34
Rhaglen Addasiadau Brys	35

Un pwynt mynediad	36
Darparu Gwybodaeth	37
Barn y Gweinidog	39
Ein barn	40
Argymhellion	41
5. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	42
Cyflwyniad	42
Amrywiadau o ran amseroedd darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	42
Amrywiadau o ran dulliau o weithredu	44
Arfer Gorau	46
Gwaith Craffu mewn Awdurdodau Lleol	47
Arweinyddiaeth Gorfforaethol	48
Cydweithredu	49
Therapyddion Galwedigaethol	50
Ein Barn	52
Argymhellion	53
6. Monitro perfformiad	55
Cyflwyniad	55
Cwmpas cul y dangosyddion perfformiad	56
Effeithiolrwydd a dibynadwyedd y dangosydd perfformiad presennol	56
Monitro boddhad cwsmeriaid	58
Monitro canlyniadau tymor hwy	59
Barn y Gweinidog	60
Ein barn	60
Argymhellion	61
7. Ariannu a darparu adnoddau ar gyfer addasiadau yn y cartref	63
Cyflwyniad	63
Ariannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	63

Ariannu o gyllidebau eraill	65
Prawf Modd	66
Hunan-ariannu.....	68
Grantiau Addasiadau Ffisegol.....	68
Sefydliadau Trosglwyddo Stoc.....	69
Cofrestrau Tai Hygyrch	69
Ailgylchu offer.....	72
Barn y Gweinidog.....	73
Ein barn.....	74
Argymhellion	75
Tystion.....	76
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	79

Rhagair y Cadeirydd

“The right to inclusion, to the dignity and maximisation of independence that an adaptation can bring is just that: a right, not a privilege.”

Daw'r dyfyniad hwn gan un o gyfranwyr yr ymchwiliad hwn ac mae'n crisialu nifer o'r sgysiau rydym wedi'u cael yn ystod yr ymchwiliad hwn. I lawer o bobl, mae addasiadau yn y cartref yn achubiaeth - maent yn caniatáu i bobl fyw bywyd llawn. Dychmygwch deimlo'n gaeth yn eich cartref eich hun, fel y mae rhai pobl - mae'n anodd meddwl amdano fel "cartref" bryd hynny.

Fel Aelodau Cynulliad, rydym yn aml yn clywed straeon brawychus gan ein hetholwyr am orfod aros yn hir mewn llety anaddas. Weithiau nid yw'r lle y maent yn ei alw'n gartref yn addas i'w hanghenion mwyach a bydd angen gwneud rhai newidiadau. Pobl fregus yw'r rhain mewn sefyllfaoedd anodd - mae angen cymorth arnynt yn y sefyllfaoedd hyn.

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, dyma'r diweddaraf mewn nifer o ymchwiliadau i addasiadau yn y cartref yng Nghymru. Er y cafwyd peth cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf, yn anffodus, nid yw'r Pwyllgor hwn yn teimlo bod y cynnydd hwnnw wedi bod yn ddigon cyflym nac yn ddigon cyson ledled Cymru. Fel y nodwn yn yr adroddiad, credwn fod angen parhau i adolygu'r system addasiadau. Byddwn yn gwneud hynny, i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud a bod cynnydd yn cael ei gynnal.

Hoffwn ddiolch i'r holl sefydliadau a gyfrannodd at yr ymchwiliad. Mae eu tystiolaeth wedi bod yn ddefnyddiol ac yn ddadlennol ac wedi helpu'r Pwyllgor i ddod i'w gasgliadau.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r defnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom eu cyfarfod yn ystod yr ymchwiliad. Roeddent yn gallu rhoi cipolwg i ni mai dim ond nhw oedd yn gallu gwneud. Rwy'n gobeithio y bydd ein hargymhellion yn gwneud y system yn fwy effeithiol ac y bydd y defnyddwyr gwasanaeth hynny y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cael budd o'r gwaith hwn. Byddant yn gwybod y bydd eu cyfraniadau i'r ymchwiliad hwn wedi cael effaith a hoffwn ddiolch iddynt.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Ann Jones AC, cyn-Gadeirydd y Pwyllgor hwn, a gadeiriodd y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad.

Christine Chapman
Cadeirydd

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran cyflawni argymhellion yr adroddiad hwn a gwella'r system addasiadau yn gyffredinol.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Leol a darparwyr tai cymdeithasol, nodi beth mae'n credu yw'r safonau priodol ar gyfer darparu gwahanol fathau o wasanaethau addasu, gan gynnwys targedau ar gyfer amseroedd cyflawni a dylai sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyrraedd y safon honno.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu effaith diwygio lles ar dai cymdeithasol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru atgoffa awdurdodau lleol i wneud defnydd priodol o daliadau tai yn ôl disgresiwn i helpu tenantiaid sy'n byw mewn tai wedi'u haddasu, ac i ystyried y canllawiau ar hyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

(Tudalen 28)

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CHC, Gofal a Thrwsio a therapyddion galwedigaethol i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno un pwynt mynediad at y system o fewn pob ardal awdurdod lleol, lle nad yw trefniadau o'r fath ar waith yn barod.

(Tudalen 41)

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael am yr agweddau amrywiol ar y system addasiadau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth yn egluro rôl a hawliau cleientiaid mewn perthynas ag addasiadau a wnaethpwyd o dan grant cyfleusterau i'r anabl.

(Tudalen 41)

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn a hybu'n fwy gweithredol y broses garlam ar gyfer addasiadau ar raddfa fach a brosesir y tu allan i'r system grant cyfleusterau i'r anabl.

(Tudalen 41)

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod y rhaglen addasiadau brys ar gael i bobl o bob oed ac i gartrefi o bob deiliadaeth, a dylai ddadansoddi goblygiadau ariannol y dull hwn o weithredu.

(Tudalen 41)

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau i awdurdodau lleol egluro pryd y dylid gwneud addasiadau drwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylid defnyddio'r grant cyfleusterau i'r anabl dim ond os dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o wneud addasiadau. (Tudalen 53)

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol, yn llunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ei ymrwymiad i drigolion yr ardal mewn perthynas â gwasanaethau addasu. (Tudalen 53)

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i ddatblygu dull asiantaeth o weithredu mewn perthynas â grantiau cyfleusterau i'r anabl fel model o arfer gorau, os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod. (Tudalen 53)

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn dynodi uwch swyddog i arwain ar addasiadau yn gorfforaethol. (Tudalen 53)

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru annog pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar berfformiad gwasanaethau addasu yn eu hardaloedd o leiaf unwaith bob tymor y cyngor. (Tudalen 54)

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio gwasanaethau addasu i nodi arfer gorau a sut y mae'n cael ei weithredu ar draws awdurdodau lleol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei chasgliadau. (Tudalen 54)

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno trefniadau monitro perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth addasu ar draws bob deiliadaeth, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, a dylent sicrhau eu bod yn gywir ac yn dryloyw. Dylai trefniadau monitro perfformiad gynnwys:

- Yr amser rhwng yr ymholiad cyntaf ac asesiad gan therapydd galwedigaethol.
- Yr amser a gymerwyd i ddatrys problem yn ymwneud â thai, gan gynnwys gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i'w datrys (er

enghraifft, drwy ddefnyddio Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y rhaglen addasiadau brys neu drwy symud i dŷ arall).

- Yr amser a gymerwyd i wneud addasiad/Grant Cyfleusterau i'r Anabl dros ystod o gostau. (Tudalen 55)

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a manwl am y dangosydd perfformiad newydd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddadansoddi ac y ceir adroddiadau arno'n gyson. (Tudalen 62)

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith, fel model o arfer da, mewn awdurdodau lleol i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau yn y tymor hirach, gan gynnwys y modd y caiff y gwaith ei wneud, a'i ansawdd. Rydym yn disgwyl i foddhad cwsmeriaid gael ei fonitro drwy gydol y broses. Rydym yn disgwyl i brosesau gael eu cyflwyno i sicrhau y gellir monitro ansawdd y gwaith yn annibynnol. (Tudalen 62)

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw cyfraniadau o gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol i addasu tai yn briodol i wella canlyniadau i gleifion. (Tudalen 75)

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru wneud dadansoddiad cost a budd o'r prawf modd ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar ei chasgliadau. (Tudalen 75)

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido'r rhaglen Grant Byw'n Annibynnol, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y rhaglen. (Tudalen 75)

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl brosesau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer addasu tai yn eu cynlluniau busnes. (Tudalen 75)

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer addasiadau. (Tudalen 75)

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru wneud cofrestrau tai hygrych yn ofyniad statudol. Dylai hyn gynnwys yr holl dai cymdeithasol. Hefyd, dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gellir defnyddio'r Bil Tai sydd yn yr arfaeth i gynnwys llety rhent preifat ar gofrestrau o'r fath. (Tudalen 75)

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r asiantaethau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses addasiadau i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o gyfleoedd i ailgylchu offer. (Tudalen 75)

1. Cyflwyniad

1. Yr ymchwiliad hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ymchwiliadau i addasiadau yn y cartref a gynhaliwyd yng Nghymru ers 2004. Yr ysgogiad ar gyfer yr ymchwiliad hwn oedd pryder parhaus bod pobl anabl yn wynebu oedi diangen cyn cael addasiadau hanfodol yn y cartref, yn enwedig drwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl.
2. Cyhoeddwyd y data dangosydd perfformiad diweddaraf ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ym mis Medi 2012 a dangosodd, yn 2011-12, fod nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio o 175 ym Merthyr Tudful i 638 yng Nghasnewydd. Cyfartaledd Cymru oedd 326 diwrnod, sy'n ostyngiad o 387 yn 2010-11.
3. Er gwaetha'r gostyngiad yn yr amser aros cyfartalog, ym mis Medi 2012, ysgrifennodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at awdurdodau lleol yn mynegi ei phryderon bod y cyfnodau o oedi yn rhy hir a'u bod , weithiau, yn torri'r gofynion statudol.

Cylch Gorchwyl

4. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i addasiadau yn y cartref gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

I ymchwilio:

- Pam bod yr amser a dreulir yn dosbarthu cymhorthion ac addasiadau a ariennir gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru;
- A wnaed cynnydd digonol wrth weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2009 ar addasiadau yn y cartref.
- Pa effaith y mae gostyngiad mewn adnoddau ar gyfer tai yn debygol o'i chael ar ddarparu addasiadau yn y cartref;
- A yw Llywodraeth Cymru yn monitro'n effeithiol y modd y mae gwasanaethau addasu'n cael eu darparu; a
- Beth mwy sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau addasu yn y cartref yng Nghymru.

5. Lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2012, a'r dyddiad cau oedd 1 Chwefror 2013. Mae crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn y briff hwn.

Dull

6. Lansiodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2012, a'r dyddiad cau oedd 1 Chwefror 2013. Daeth 35 darn o dystiolaeth ysgrifenedig i law. Gellir eu gweld [yma](#).

7. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan 17 o randdeiliaid rhwng 27 Chwefror a 17 Ebrill 2013. Gellir gweld manylion am y tystion a ymddangosodd, trawsgrifiadau ac ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiadau A, B a C, yn y drefn honno.

8. Mae agendâu, papurau a thrawsgrifiadau ar gyfer pob cyfarfod ar gael yn llawn ar dudalennau'r Pwyllgor ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y gellir eu gweld [yma](#).

9. Cynhaliodd y Pwyllgor ddau ddigwyddiad cyhoeddus gyda defnyddwyr gwasanaeth ar 21 a 27 Mehefin. Yn y digwyddiad cyntaf, cafodd y Pwyllgor gyfle i glywed yn uniongyrchol am yr heriau a'r anawsterau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu profi yn y system addasiadau. Defnyddiwyd y wybodaeth hon fel sail i ymchwiliad y Pwyllgor. Yn yr ail sesiwn ymgysylltu, a gynhaliwyd ar ddiwedd yr ymchwiliad, cafodd y Pwyllgor gyfle i brofi ei argymhellion â'r defnyddwyr gwasanaeth hynny.

2. Cefndir

Cyflwyniad

10. Yn ystod y degawd diwethaf cafwyd nifer o adolygiadau ac ymchwiliadau i addasiadau yn y cartref. Mae'r bennod hon yn rhoi rhywfaint o gefndir i'r gwaith a wnaed hyd yma. Yr adolygiadau yw:

- Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (2004);
- Adolygiad Jones (2005);
- Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (2009); ac
- Adolygiad o gynnydd o ran gweithredu adolygiad Jones (2010).

Adolygiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (2004)

11. Yn 2004, cynhaliodd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad Cenedlaethol ymchwiliad i sut y gellid diwallu anghenion tai pobl hŷn. Roedd yr ymchwiliad yn llawer ehangach nag addasiadau yn y cartref, ond roedd nifer o argymhellion yn yr adroddiad yn berthnasol, gan gynnwys:

- Yr angen i fynd i'r afael â'r amseroedd aros hir ar gyfer addasiadau. Daeth y pwyllgor i'r casgliad y gellid priodoli hyn i brinder therapyddion galwedigaethol;
- Adolygu'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan gynnwys cael gwared ar y prawf modd a chael cydraddoldeb ar draws pob deiliadaeth o ran mynediad i gyllid ar gyfer addasiadau; a
- Defnydd ehangach o gyllidebau iechyd i ateb y galw ar gyfer addasiadau.

12. Er nad yw'n argymhelliad ffurfiol, argymhellodd y pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cofrestrau tai hygyrch fel y gellir cyfateb pobl anabl ag eiddo hygyrch addas, darparu gwybodaeth am alw a chyflenwi a chaniatáu i bobl anabl symud i ardaloedd eraill yn haws.

13. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion yn y meysydd a nodwyd uchod.¹

Adolygiad Jones (2005)

14. Yn 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad (a gomisiynwyd yn 2003) o addasiadau yn y cartref, gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw gan Chris Jones, a oedd yn gweithio ar y pryd i Ddinas a Sir Abertawe, ac yn ystod yr ymchwiliad ef oedd Prif Weithredwr Gofal a Thrwsio Cymru. Hefyd, gwnaeth yr adolygiad bron 40 o argymhellion mewn amryw o feysydd. Dyma rai o'r argymhellion allweddol:

- Yr angen i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ddarparu adnoddau digonol ar gyfer y rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl;
- Yr angen i rannu arfer gorau i fynd i'r afael ag oedi;
- Cyflwyno dangosydd perfformiad i fonitro'r gwaith o ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
- Diddymu'r prawf modd i blant;
- Cyflawni mân addasiadau y tu allan i'r fframwaith Grant Cyfleusterau i'r Anabl/Grant Addasiadau Ffisegol gan ddefnyddio staff cymwys nad ydynt yn therapyddion galwedigaethol fel bod y broses yn gynt ac yn llai biwrocraataidd;
- Hyrwyddo cofrestrau tai hygrych/wedi'u haddasu; a
- Pharhau â'r Rhaglen Addasiadau Brys.

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (2009)

15. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ymchwiliad i archwilio'r problemau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu wrth wneud cais am wasanaethau cynnal a chadw tai ac addasiadau yn y cartref. Canfu fod y system ar gyfer gwneud cais am grantiau addasiadau yn y cartref a darparu'r grantiau hynny'n gymhleth ac yn aml yn anghyson i bobl hŷn ledled Cymru. Canfu hefyd fod pobl yn aros am amseroedd annerbyniol o hir ar gyfer addasiadau, ac y gallai'r amseroedd aros hyn fod yn hirach i bobl sy'n byw mewn rhannau gwahanol o Gymru neu mewn mathau gwahanol o dai.

¹ [Datganiad Ysgrifenedig mewn ymateb i Argymhellion ar Dai a Phobl Hŷn Adroddiad Adolygiad Polisi y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio](#)

16. Gwnaeth y Pwyllgor 15 o argymhellion, a derbyniodd y Dirprwy Weinidog Tai 14 ohonynt, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor.

17. Ymysg rhai o'r argymhellion allweddol sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwn mae:

- Mireinio'r dangosydd perfformiad a gyflwynwyd yn dilyn Adolygiad Jones yn 2005 i ddangos: amseroedd aros ar gyfer mathau gwahanol o addasiadau y cytunwyd arnynt; yr amser y mae pob cam gwahanol o'r broses o addasu yn ei gymryd; cyfran yr addasiadau a gwblhawyd o fewn nifer penodol o ddiwrnodau; a grwpiau oed gwahanol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad trylwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth, o'r hyn a wnaed i weithredu argymhellion Adolygiad o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl 2005 ac o'r cynnydd a wnaed.
- Mae Llywodraeth Cymru yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn Adolygiad 2005, a'r argymhellion yn adroddiad 2009. Dylid ategu'r adroddiad gan ddata a gasglwyd drwy'r dangosydd perfformiad, a dylai hyn fod yn un o'r ymrwymadau yn y Strategaeth Pobl Hŷn.

Cynnydd o ran gweithredu Adolygiad Jones (2010)

18. Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a chanfu y bu gwelliant mewn amseroedd aros ar gyfer addasiadau a ariennir gan Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Canfu'r adolygiad welliant hefyd, er ei fod yn llai amlwg, yn yr amseroedd aros cyfartalog a gymerwyd i denantiaid awdurdod lleol gael addasiadau, er na chasglwyd y wybodaeth hon ers 2009-10 oherwydd nad oes gan nifer o awdurdodau lleol stoc tai mwyach. Gwelwyd gostyngiad bychan hefyd o ran oedi cyn darparu mân addasiadau.

19. Dyma rai materion a amlygwyd yn adolygiad 2010:

- Roedd nifer y therapyddion galwedigaethol wedi cynyddu ers 2005: o 187 (159.34 cyfwerth ag amser llawn) yn 2004/05 i 228 (197 cyfwerth ag amser llawn) yn 2007/08. Roedd nifer o awdurdodau yn defnyddio swyddogion nad oeddent yn therapyddion galwedigaethol ar gyfer mân waith, gan ryddhau

therapyddion galwedigaethol i ddelio ag achosion mwy cymhleth.

- Roedd nifer o awdurdodau lleol yn credu nad oedd y prawf modd yn ddefnydd da o adnoddau a bod yr adnoddau a fuddsoddwyd i gynnal y prawf yn anghymesur. Awgrymodd yr adolygiad y gallai fod yn afrealistig diddymu'r prawf modd, ond gellid ei symleiddio.
- Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth symlach ar gyfer addasiadau llai, er bod rhai o'r rhain yn dal i gael eu gwneud drwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan gynnwys prawf modd. Roedd awdurdodau lleol eraill wedi'u tynnu allan o'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn gyfangwbl. Roedd diffiniadau a chyfyngiadau ariannol gwahanol ar gyfer yr hyn a ystyrir yn fân waith.
- Er bod gwariant awdurdodau lleol ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi parhau'n gymharol sefydlog, mae ffynonellau ariannu eraill wedi cael eu cyflwyno neu eu hystyngiadau. Er enghraifft, cynyddodd gwariant ar Grantiau Addasiadau Ffisegol o £1.5 miliwn yn 2004/05 i £8 miliwn yn 2008/09.
- Gwnaeth adolygiad 2005 argymhell y dylid adolygu'r modd y caiff y fformiwla tai ei chyfrifo ar gyfer dyraniadau cyfalaf cyffredinol heb eu neilltuo er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefelau anabledd yn lleol a'r galw gwirioneddol am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Nododd yr adolygiad hwn nad oedd hyn wedi'i ddatblygu a nododd hefyd yr arbedion posibl i wasanaethau eraill (iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf) drwy sicrhau adnoddau digonol i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Roedd cofrestrau tai wedi'u haddasu yn cael eu gweithredu mewn nifer o ardaloedd, ac roedd rhai awdurdodau lleol yn bwriadu ymestyn hyn i gynnwys llety rhent preifat a llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr.

Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Dai

20. Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Dai, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud dau ymrwymiad sy'n arbennig o berthnasol i'r ymchwiliad hwn. Mae'n ymrwymo i:

- Adolygu'r ystod o raglenni cymorth ac addasiadau, i sicrhau gwelliannau pellach wrth ddarparu gwasanaeth, a'r cyfraniad y

maent yn ei wneud i helpu pobl i fyw'n annibynnol ac i waith y GIG a gwasanaethau cymdeithasol; a

- Sicrhau bod Cofrestr Tai Hygyrch yn cwmpasu pob ardal awdurdod lleol, yn seiliedig ar arfer da a chydweithio.

3. Rôl Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

21. Diben y bennod hon yw archwilio'r materion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad am rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r system addasiadau yn y cartref, gan gynnwys:

- Y cynnydd a wnaed ers yr ymchwiliadau blaenorol;
- Arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
- Atebolrwydd;
- Deddfwriaeth; ac
- Effaith diwygio lles.

Y cynnydd a wnaed ers yr ymchwiliadau blaenorol

22. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, dyma'r diweddaraf mewn nifer o ymchwiliadau ac adroddiadau mewn cysylltiad ag addasiadau yn y cartref. Mae hefyd yn amlwg bod yr un materion yn codi mewn nifer o'r ymchwiliadau. Mae'r dystiolaeth a ddaeth gerbron y Pwyllgor hwn yn awgrymu y bu peth cynnydd, ond nad yw wedi bod yn gyson ac nac yw wedi'i gymhwyso ledled Cymru. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn wrthym:

“There have been improvements over time, and some of those have been quite significant. I pay credit to our public services where they have brought about those changes. However, my line, as the older people's commissioner is very clear: the pace of change has not been sufficient, there are too many inconsistencies and variations; and it depends on where you live and who you know. That is unacceptable.”²

23. Ategodd Age Cymru y farn hon:

“[...] using the previous committee's report as the baseline. It is a mixed response some six years on. There seem to be improvements in certain local authority areas [...] the feedback that we are getting [...] is that there is still little consistency across local authority boundaries.”³

² Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

³ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

24. O ran yr argymhellion penodol sy'n codi o'r adolygiadau blaenorol, dywedodd Gofal a Thrwsio:

"There are bits that I do not think have been sufficiently progressed. There is a need for more widespread good practice on adapted housing registers, which is one of the issues that came out of the last committee. [...] That is good practice, but it does not happen across Wales. Good practice is a bad traveller, as they say..."⁴

25. Teimlai'r Panel Technegol Tai fod nifer o welliannau wedi'u gwneud ers yr ymchwiliadau blaenorol. Dywedodd:

"In terms of some of the reviews done by Chris Jones, local authorities have embraced a number of the recommendations, such as working closer with occupational therapists. A number of local authorities have OTs within house, they have streamlined the process and we have looked at a systems-thinking approach in terms of that. We have fast-track priority cases and we are working closer with partners like Care and Repair."⁵

26. Awgrymodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol fod sawl ymdrech i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â phroblemau penodol, yn ymarferol, wedi ychwanegu at gymhlethdod y system:

"For us, one fundamental difficulty is that, whenever a problem has been spotted, we have added a new system or a new type of grant, which has added to the complexity. So, the whole system feels as though, when someone identifies a problem that could be solved by adapting the environment, we are immediately focused on which route we might end up on and what sort of things we can do by following that route rather than asking, 'What would solve your problem as part of a holistic package of care?' Although those two reports have improved some things, we have not solved that fundamental problem."⁶

⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁵ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁶ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

Arweinyddiaeth a Chyfeiriad Strategol

27. Mewn cysylltiad â rôl arwain Llywodraeth Cymru, awgrymodd Gofal a Thrwsio y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy, efallai drwy archwilio sut mae awdurdodau unigol yn darparu gwasanaethau ac yn rhannu arfer da.⁷ Dywedodd wrthym:

“The Welsh Government has shown a fair bit of leadership over the last few years on this in terms of recognising the problem, getting the reviews done, getting the outcomes of the reviews out there and engaging with the right stakeholders. There is an enormous amount of responsibility, corporately, on local authorities to then implement what comes out of the sort of reviews that we have seen.”

28. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae pan fydd awdurdodau lleol yn tanberfformio:

“The Welsh Government providing assistance where poor practice is detected and developing ongoing mechanisms to share best practice was another recommendation of the 2009 review and I do not think that either of those things were progressed.”⁸

29. Yna dywedodd:

“[...] there may well be a role that the Welsh Government can play in pushing that agenda forward and pursuing local authorities, maybe auditing how they are delivering their services and perhaps being more proactive in engaging with those local authorities and making sure that they develop good practice. It is a mix, is it not? Corporate leadership is crucial, and the statutory PI has driven that, to an extent, but, where that corporate leadership is lacking, there could be a role for the Welsh Government to drive best practice forward.”⁹

30. Roedd y Panel Technegol Tai yn gweld bod gan Lywodraeth Cymru rôl yn y broses o helpu awdurdodau lleol i ddelio â'r galw sy'n cynyddu wrth i'r boblogaeth sy'n heneiddio:

⁷ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁸ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

“...possibly the Welsh Government could help local authorities to understand what is going on and understand what they can do about it.”¹⁰

31. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, galwodd am gymorth gan Lywodraeth Cymru i wella systemau:

“Further improvements to systems and process need to be developed through perhaps a systems thinking approach. The Housing Technical Panel would welcome any support the Welsh Government could provide with regard to this.”¹¹

32. Roedd Shelter Cymru yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod i ymyrryd yn uniongyrchol mewn rhai achosion:¹²

33. Roedd Gofal a Thrwsio hefyd yn gweld y byddai’n fuddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn fwy uniongyrchol, ond cydnabu y byddai hynny’n effeithio ar adnoddau:

“We are in a resource-driven world; if you put the resources into a Welsh Government central team to say to the 22 local authorities, ‘Here’s six bits of good practice, you are only doing three, what is happening with the others?’, and to sit down with them, talk to them and take them through that, that will help, will it not? However, we are in a resource-driven world and resources are limited. In principle, it would be great.”¹³

34. Roedd Age Cymru yn teimlo y dylai Byrddau Gwasanaeth Lleol chwarae mwy o ran y broses o hybu dull aml-asiantaeth o weithredu, sef un o’r argymhellion a wnaed yn dilyn ymchwiliad 2009:¹⁴

“The increasing focus of local service boards forces that multi-agency approach to some of these issues. If the Welsh Government can play a central role in ensuring that issues like adaptations are a central feature of the work of those groupings in the future and that there is national guidance that has to be complied with—clearly, guidance is not statute, but if something comes from the most senior level that makes it abundantly clear that there is a requirement to work across

¹⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹¹ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹² Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

¹³ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

¹⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

disciplines and professions, that will advance this area of work in a positive way.”

Atebolrwydd

35. Soniodd y Comisiynydd Pobl Hŷn am yr amserlenni statudol presennol ar gyfer talu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs), a holodd a oedd unrhyw atebolrwydd pan na chadwyd at yr amserlenni statudol hyn. Dywedodd y Comisiynydd:

“I keep coming back to this fundamental question as commissioner, which is, how many reviews do we need to have? How much good practice guidance do we need to put out there? Also, where is the accountability? Let us remember that there are 365 days. That is statutory guidance, yet who has ever been held to account for not getting it right? It does not seem that anyone is held to account for not getting it right.”¹⁵

Deddfwriaeth

36. Awgrymodd nifer o dystion y gallai'r Bil Tai sydd ar y gweill roi cyfle i gynnwys mesurau statudol penodol i wella'r system.

37. O ran dyletswyddau statudol, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn:

“I would like to see a statutory duty on local authorities to get this right for people; not just in relation to disabled facilities grants, but the wider issue. The whole point of this is to help people to be safe and independent and to stay in their own homes. I would like to see simplification of the current system; with seven funding streams, it is difficult for local authorities, so, imagine how hard it is for older people to navigate through those.”¹⁶

38. Hefyd, cyfeiriodd nifer o dystion at Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru gan holi a allai darpariaethau yn y Bil hwnnw arwain at system addasiadau fwy effeithiol. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“[...] the social services Bill, moving forward, will look to put a duty on local authorities around advice, information and wellbeing, so there will be opportunities. This will be an

¹⁵ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹⁶ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

important aspect of ensuring that people's wellbeing is being catered for. So, if it is not there across the 22 now, the social services Bill will obviously ensure that it is there in the future.”¹⁷

Effaith Diwygio Lles

39. Cyfeiriodd cyfranwyr at yr ymchwiliad hwn at effaith diwygio lles. Awgrymodd Anabledd Cymru fod rhai pobl anabl yn defnyddio'u lwfans byw i'r anabl i dalu am addasiadau bach ac y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio ar hyn.¹⁸

40. Hefyd, nododd Anabledd Cymru bryderon ynghylch effaith diwygio budd-dal tai ar bobl sy'n byw mewn eiddo a gafodd ei addasu i ddiwallu eu hanghenion penodol:

“We are becoming particularly concerned about the impact on disabled tenants in social housing. Those tenants who have had disabled facilities grants to make various adaptations to their properties who are currently living in a two-bedroom bungalow or flat—or house in some cases—now risk losing that home, when it has taken many years to make the property accessible. The fact is that limited options are available for them to transfer to another home. So, that needs to be looked at as well.”¹⁹

41. Amlygwyd hefyd effaith newidiadau i fudd-dal tai ar gynlluniau busnes cymdeithasau tai ac, yn benodol, y posibilrwydd i hyn effeithio ar eu costau benthyca (ac, o ganlyniad, ar faint sydd ganddynt i'w wario ar addasiadau).

Barn y Gweinidog

42. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, cydnabu'r Gweinidog y gellid gwneud gwelliannau, ond dywedodd fod peth cynnydd wedi'i wneud ers yr adolygiadau diweddar:

“First, I think that it is important that you are doing a review into DFGs and the grants system because it was evident that improvements could be made. It is clear to us, following the report that we commissioned in 2010, outlining the delivery of the adaptations, that we have come some way in terms of

¹⁷ Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

¹⁸ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

¹⁹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

improvement. The general trend across Wales for delivery is one of improvement, showing a 45% improvement rate since 2006, reducing the average time from 593 days to 325 days. That comes well within the statutory guidance of DFGs in terms of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996.”²⁰

43. O ran a ddylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn fwy uniongyrchol, dywedodd y Gweinidog, er nad oedd gan y Llywodraeth bwerau i ymyrryd yn uniongyrchol mewn cysylltiad â DFGs, roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau i ysgogi gwelliant.

44. O ran annog arfer da, dywedodd y Gweinidog:

“I have always been one to push best practice; where we have good value and good outcomes, we should be sharing that across the board. We have clearly gone some way to delivering that, as indicated by the figures that I gave you earlier; however, the picture is slightly complex. I do not think that we fully understand the best delivery mechanism. So, what we are trying to understand at the moment is whether, in relation to the DFG, the physical adaptations grant, and the housing revenue accounts—which all link together—we are getting best value for money and also best delivery for our money?”²¹

45. Roedd y Gweinidog hefyd yn teimlo bod y canllawiau ar Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl yn glir gan ddweud: “there is no ambiguity in the advice we are giving”:

“As we have seen, some people deliver on the guidance, and given that it is the same guidance being issued, I do not accept that it is flawed.”²²

Ein barn

46. Rydym yn nodi bod y dystiolaeth yn awgrymu y bu gwelliant mewn perfformiad mewn cysylltiad â Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl dros y blynyddoedd diwethaf. Mae’n amlwg bod nifer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno mesurau i wella’u systemau a’u hamseroedd

²⁰ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

²¹ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

²² Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

darparu. Fodd bynnag, roedd llawer o'r dystiolaeth yn seiliedig ar welliannau a gofnodwyd gan y dangosydd perfformiad. Dylid nodi bod nifer o dystion, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, wedi awgrymu i ni nad oedd y dangosydd perfformiad yn ddibynadwy. Rydym yn ymdrin â'r mater hwn ymhellach yn yr adroddiad hwn.

47. Rydym yn nodi bod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn flaenorol wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Cynulliad yn flynyddol ar y system addasiadau. Credwn fod angen gwneud gwelliannau ar fyrder a theimlwn fod angen monitro cynnydd yn briodol. Felly, rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran gwella'r system ac ar y cynnydd o ran cyflawni argymhellion yr adroddiad hwn.

48. O ran arweinyddiaeth, credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy. Credwn y dylai, fel man cychwyn, bennu safonau gofynnol ar gyfer darparu gwasanaethau addasu. Teimlwn y dylai'r safonau gynnwys targedau penodol ar gyfer amseroedd cyflawni. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru roi mesurau ar waith i sicrhau y caiff y safonau hynny eu cyrraedd. Fel y nodir uchod, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i ni ar y cynnydd a wneir.

49. Rydym yn bryderus ynghylch effaith bosibl diwygio lles ar wasanaethau addasiadau. Teimlwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod effaith y diwygiadau hyn yn cael eu hadolygu. Rydym hefyd yn teimlo bod angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o daliadau tai yn ôl disgrisiwn i helpu tenantiaid i fyw mewn tai wedi'u haddasu.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran cyflawni argymhellion yr adroddiad hwn a gwella'r system addasiadau yn gyffredinol.

Dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Leol a darparwyr tai cymdeithasol, nodi beth mae'n credu yw'r safonau priodol ar gyfer darparu gwahanol fathau o wasanaethau addasu, gan gynnwys targedau ar gyfer amseroedd cyflawni a dylai sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyrraedd y safon honno.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu effaith diwygio lles ar dai cymdeithasol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru atgoffa awdurdodau lleol i wneud defnydd priodol o daliadau tai yn ôl disgrisiwn i helpu tenantiaid sy'n byw mewn tai wedi'u haddasu, ac i ystyried y canllawiau ar hyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

4. Y system addasiadau

Cyflwyniad

50. Un o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein hymchwiliad oedd cymhlethdod y systemau addasiadau tai presennol, gyda gwahanol ffrydiau ariannu yn gymwys i wahanol deiliadaethau, a rhai, ond nid eraill, yn cael prawf modd.

51. Er bod amseroedd aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ffactor allweddol wrth gynnal yr ymchwiliad hwn, dim ond un o blith nifer o ffyrdd o ariannu addasiadau yng Nghymru yw'r grant hwn. Mae'r ffrwd ariannu a ddefnyddir i ariannu addasiadau yn dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys deiliadaeth y meddiannydd, pwy yw ei landlord (os yw hynny'n gymwys) a hyd yn oed yr ardal y mae'n byw ynddi.

Y cyd-destun deddfwriaethol

52. Grantiau statudol yw Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarperir drwy *Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996*. Cyhyd â bod ymgeisydd yn gymwys, ac yn amodol ar unrhyw brawf modd, mae gan yr ymgeisydd hawl gyfreithiol i gael grant gan ei awdurdod lleol.

53. Gall awdurdodau lleol ddarparu arian ar gyfer addasiadau gan ddefnyddio eu pwerau disgrisiwn o dan *Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002*. Diwygiodd Gorchymyn 2002 Ddeddf 1996 i roi pwerau eang i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth a'u galluogi i ychwanegu at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol mewn unrhyw ffordd y byddant yn ei ystyried yn briodol.

54. Mae deddfwriaethau eraill, gan gynnwys *Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970*, a *Deddf Plant 1989*, hefyd yn cynnwys darpariaethau i ymdrin ag addasiadau tai.

55. Darperir rhaglenni addasiadau eraill, fel Grantiau Addasiadau Ffisegol, Addasiadau Brys a Grantiau Byw'n Annibynnol, yn anstatudol.

Y gwahanol ffyrdd o ddarparu addasiadau

56. Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn grantiau gorfodol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a all ddarparu hyd at £36,000 ar

gyfer addasiadau. Cânt eu hariannu o gyllid cyfalaf cyffredinol a ddarperir i awdurdodau lleol, sy'n cynnwys swm tybiannol a ddyrennir ar gyfer tai. Fodd bynnag, nid yw'r arian hwn wedi'i neilltuo felly nid oes rhaid ei wario ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl nac, yn wir, ar dai. Felly, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau bod arian ar gael. Gall tenantiaid o bob deiliadaeth, neu berchen-feddianwyr, wneud cais am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Maent yn amodol ar brawf modd, ac eithrio pan fydd y person anabl yn blentyn neu'n berson ifanc.²³ Pan ddyfernir Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gallai'r awdurdod lleol gofrestru tâl ar yr eiddo, sy'n golygu os caiff ei werthu o fewn 10 mlynedd, rhaid ad-dalu'r grant.

57. Grantiau Addasiadau Ffisegol - gellir ariannu addasiadau ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai drwy Grant Addasiadau Ffisegol. Ariennir y grant hwn drwy gyllideb y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn amodol ar uchafswm terfyn gwariant a bennir gan Lywodraeth Cymru (sef £8.5 miliwn ar hyn o bryd). Nid yw'r grantiau ar gael i gymdeithasau tai a grëwyd yn dilyn trosglwyddo stoc (a elwir hefyd yn gymdeithasau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr). Byddai disgwyl i'r landlordiaid hyn wneud darpariaeth o fewn eu cynllun busnes ar gyfer addasiadau, felly ni fyddant yn cael arian ychwanegol at y diben hwnnw. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r cynlluniau busnes hynny am hyd at 30 mlynedd. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael swm o arian y cytunwyd arno bob blwyddyn a bydd y swm hwnnw'n cyfateb i'r hyn y byddai'r awdurdod lleol wedi'i gael ar ffurf Lwfans Atgyweiriadau Mawr (pe na baent wedi trosglwyddo eu stoc tai).

58. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu hadnoddau cyfalaf eu hunain, gan gynnwys Lwfans Atgyweiriadau Mawr, i ariannu addasiadau yn eu stoc eu hunain. Hefyd, gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau disgresiwn i ariannu grantiau ar gyfer perchen-feddianwyr neu denantiaid preifat, neu yn wir, i ychwanegu at DFGs gorfodol pan fydd gwaith yn costio mwy na £36,000. Mae cymdeithasau tai yn ariannu mân addasiadau yn eu stoc o'u hadnoddau eu hunain.

59. Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys, a reolir gan asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol, yn hwyluso ymateb cyflym i anghenion penodol perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat drwy ddarparu mân addasiadau, fel

²³ Cyflwynwyd yr eithriad ar gyfer plant anabl o 30 Medi 2005 pan ddaeth Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005 i rym. Ymestynodd Llywodraeth Cymru yr eithriad i ystyried 'pobl ifanc' ar 20 Hydref 2006.

rampiau a chanllawiau, er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac i'w hatal rhag mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf.

60. Lansiyd Grant Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru yn 2011 gyda'r nod o leihau amseroedd aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac ariannu addasiadau sy'n costio rhwng £1,000 a £10,000. Caiff ei dargedu hefyd at berchen-feddianwyr a thenantiaid preifat, a chaiff ei reoli gan Gofal a Thrwsio. Sicrhawyd fod £1 miliwn ychwanegol ar gael ar gyfer y rhaglen yn 2012-13.

61. Mewn rhai ardaloedd, mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn helpu gydag addasiadau ar raddfa fach.

Barn gyffredinol ar y system addasiadau

62. Soniodd nifer o ymatebwyr am eu profiad o ddefnyddio system addasiadau fiwrocraidd a gor-gymhleth o ran gwneud cais am grant, gweinyddu'r system a chyflawni'r addasiadau. Priodolwyd hyn i amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys nifer fawr o ffrydiau ariannu a'u meini prawf cymhwysedd unigol. Mae'r meini prawf hyn yn seiliedig ar ddeiliadaeth, oed, diagnosis, cyfraniadau personol a pha mor gymhleth yw'r addasiad sydd ei angen.

63. Fel y dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol, nid yw bob amser yn glir pa ffrwd ariannu fydd yn cael ei defnyddio, neu a ddylai gael ei defnyddio:

“At the moment, there are five or six different means of obtaining an adaptation, depending on the tenure of the property that you are in. You have the disabled facilities grant, the physical adaptation grant, and the independent living grant; those authorities that have retained their stock use their own moneys; and then you have the stock transfer for which money has to be used from the business plan and there is then no access to any other additional moneys. Such a complex range of funding routes means that people will drop through that system.”²⁴

64. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod y system yn:

²⁴ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

“[...] a disjointed and complex system which needs fundamental review and reform to meet modern needs. Local authorities in Wales are subject to statutory duties to provide effective Disabled Facilities Grants and also have discretionary powers to deliver a wide range of adaptations services as they see appropriate. Public, private and voluntary agencies fulfil different, sometimes overlapping roles. These multiple routes can create unnecessary complexity and unfairness, and create bureaucratic processes which often inhibit a common sense response to a problem.”²⁵

65. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Nigel Appleton at gymhlethdod a biwrocratiaeth y system addasiadau bresennol:

“The arrangements for the provision of assessment and delivery of adaptations to dwellings to meet the needs of disabled people seem uniquely structured to encourage delay, bureaucracy and fragmentation in the delivery of service. Through the initiative and imagination of individuals the system is, in many cases, made to work for the benefit of disabled people. Where goodwill, adequate financial resources, inter-disciplinary trust and corporate leadership are absent disabled people suffer delay and compounded risk for themselves and their carers.”²⁶

66. Nododd sefydliadau fod materion penodol yn cyfrannu at gymhlethdod y system gyffredinol, gan gynnwys profion modd, asesiadau, gweithio gyda chontractwyr a chydbwyso anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid yn erbyn biwrocratiaeth.

67. Nodwyd hefyd fod anghysondebau o ran amseroedd cyflawni ar draws deiliadaethau a rhaglenni ariannu. Gan mai ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl y mae'r unig ddangosydd perfformiad, mae gwaith cymharu cadarn yn anodd.

68. Awgrymodd nifer o dystion nad oedd yr amodau'r un fath i bob tenant sy'n chwilio am addasiadau i'w gartref. Dywedodd Age Cymru wrthym:

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 24

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 25

“That really is at the heart of the matter, and it is why we and other organisations that have been a part of this debate are indicating the necessity for a single process that is tenure blind. The tenured basis to the systems currently in place and the connections that that has to the funding structures that are currently in place bring inherent inequities. Addressing that issue with a single tenure-blind approach to the administration of adaptation work in the future probably would cancel out a lot of that inequity.”²⁷

69. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

“If you are a social housing tenant you have greater support provided by your landlord to assist you through the process. They manage and control the delivery of the building works to physically improve the building. If you are an owner-occupier or private tenant, it is slightly more onerous and difficult. It depends very much on the system that the authority uses to secure contractors; if they act as an agent on behalf of the applicant, that assists them through the process. However, in some instances, they may just provide a list of contractors to select from and then the onus is on that disabled or vulnerable person or their family to work through the process. So, I think that there is a difference between tenures.”²⁸

70. Awgrymodd Age Cymru y dylid mabwysiadu dull sy'n diystyru deiliadaeth:

“The tenured basis to the systems currently in place and the connections that that has to the funding structures that are currently in place brings inherent inequities. Addressing that issue with a single tenure-blind approach to the administration of adaptation work in the future probably would cancel out a lot of that inequity.”²⁹

Tai cymdeithasol a Grantiau Addasiadau Ffisegol

71. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gyfyngedig am faterion yn ymwneud â stoc a gadwyd gan awdurdod lleol, er nodwyd nad oedd

²⁷ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

²⁸ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

²⁹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

dangosydd perfformiad mwyach ar gyfer perfformiad awdurdod lleol yn y maes hwn.

72. Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru yn ei bapur nad oes un safon neu broses ar gyfer addasiadau yng Nghymru. Aeth ati i nodi bod amrywiadau hyd yn oed yn y sector cymdeithasau tai, ac nad yw cymdeithasau tai a sefydlwyd ar ôl trosglwyddo stoc (a elwir yn landlordiaid Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr) yn gallu cael gafael ar gyllid Grant Addasiadau Ffisegol.³⁰

73. Er yr ystyriwyd rhaglen Grant Addasiadau Ffisegol yn llwyddiant gan y sector cymdeithasau tai, cydnabyddir bod rhywfaint o oedi o hyd. Roedd Cartrefi Cymunedol Cymru yn priodoli peth o'r oedi hwn i ddiffyg adnoddau yn y sector therapyddion galwedigaethol.

74. Rhoddodd cymdeithasau tai dystiolaeth i'r Pwyllgor ac, er bod arfer yn amrywio rhwng landlordiaid, nodwyd y gellid ariannu addasiadau hyd at £1,000 o'u hadnoddau eu hunain heb orfod mynd ar drywydd Grant Addasiadau Ffisegol gan felly leihau biwrocratiaeth.

75. Yn benodol mewn cysylltiad â Grantiau Addasiadau Ffisegol, nododd Cartrefi Cymunedol Cymru:

“There are still layers of bureaucracy in the PAG system such as tendering process where frameworks [agreements] are not in place which also impact on the end to end time of delivering the adaptation.”³¹

Addasiadau ar Raddfa Fach

76. Amlinellodd Gofal a Thrwsio y buddion o fynd ar drywydd addasiadau ar raddfa fach heb ddefnyddio'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl:

“Probably, the biggest issue is the fact that you still have quite small works going into that system. I think that the issue is to take as many of the smaller works out of that system as possible, to do it outside of that bureaucratic system. I mentioned local authorities' powers to do this, through a regulatory reform Order. They can put in place their own

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

³¹ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

systems; it does not have to be means-tested, and it does not need the same bureaucracy.”³²

77. Roedd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol hefyd o blaid darparu addasiadau syml yn gyflym heb faich gweinyddol sylweddol a nododd ei fod wedi argymhell darparu addasiadau syml heb orfod cael asesiad therapi galwedigaethol, ar yr amod bod y staff sy'n gwneud yr asesiadau wedi cael hyfforddiant priodol. Dywedodd:

“I think it was in 2006, or it could be earlier, that the College of Occupational Therapists published ‘Minor Adaptations Without Delay’, which offers clear guidance on how it is possible to provide simple adaptations without using an occupational therapy assessment. We would absolutely advocate that that needs to be done. However, you must have good supervision, training and support for those staff so that, if they get into a situation where they arrive at someone’s house and spot that there are potential dangers and that, potentially, people do need more, they have a route for coming back and getting advice and that we make sure that services are always fail safe.”³³

Rhaglen Addasiadau Brys

78. Ystyriwyd bod y Rhaglen Addasiadau Brys a'r rhaglen beilot, y Grant Byw'n Annibynnol, yn fodelau effeithiol y gellid eu hailadrodd a'u defnyddio'n fwy eang. Awgrymodd Gofal a Thrwsio y gellid ymestyn y Rhaglen Addasiadau Brys lwyddiannus i gynnwys y sector tai cymdeithasol a rhoddodd enghraifft o'r annhegwch posibl yn y system bresennol:

“The problem at the moment is that you may have a health professional who has two people in beds next to each other and is trying to get them home into a safe environment. However, one is a homeowner and one is a social tenant, so while one of them is eligible for rapid response, the other is not.”³⁴

79. Nododd Gofal a Thrwsio nad oedd yr arian ar gyfer Rhaglen Addasiadau Brys yn ddigonol:

³² Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

³³ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

³⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

“We have been delivering a rapid response adaptations programme for 10 years. Really successful infrastructure and partnerships are in place with health, social care and housing. Yet, despite the demand for it and the fact that all the professionals refer into it, the money runs out. It is a question of whether we need to think of new ways of doing it or should we just put resources into something that works. That should be the case for the rapid response programme.”³⁵

80. Nodwyd y Rhaglen Addasiadau Brys fel model o arfer gorau y gellid, o bosibl, ei gynrig i bobl o bob deiliadaeth er nad oedd pawb yn cytuno ar y pwynt hwn. Dywedodd Gofal a Thrwsio:

“There is currently no programme that goes across tenure. If you think about the lowest cost adaptations that the rapid response programme deals with, you will know that there is an average cost of £150 and an eight-day average waiting time. Would it not make sense to do that particular one across tenure because that is quite easy? I think that that would be easy to implement. I think that it becomes more complex to implement cross-tenure schemes as the cost of the work increases.”³⁶

81. Yn wir, ategwyd hyn gan Goleg y Therapyddion Galwedigaethol, a ddywedodd bod rhanddeiliaid wedi cytuno â'r sylwadau uchod mewn digwyddiad diweddar: “we need to look at whether something as effective as the rapid response adaptation programme can be made available to all ages and all tenures, because that has been highly effective.”³⁷

Un pwynt mynediad

82. Awgrymodd nifer o dystion mai ffordd effeithiol o symleiddio'r system i'r cwsmer fyddai drwy greu un pwynt mynediad i'r system. Dywedodd Gofal a Thrwsio wrthym:

“With a local government hat on, I think the most sensible way to deliver the services would be through a single team that brings together housing people who work in private sector housing and colleagues who work on council housing adaptations. Even within housing there is separation, so bring

³⁵ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

³⁶ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

³⁷ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

those together, bring the OTs into that team, and have a single point of access for people—at least into the local authority service. If you get that access point, then somebody living in that county knows, ‘Right, that is where I go’. It is not a matter of having to ask, ‘Do I go to the OT? Do I go to private sector housing? Do I go to my landlord or housing association?’ It is, ‘That is where I go’.”³⁸

83. Pwysleisiodd Cartrefi Cymunedol Cymru yr angen i greu un pwynt mynediad a phwysleisiodd yr anawsterau a allai wynebu’r rhai sydd am ddefnyddio’r system, gan ddweud: “I think that they are confused because if they do not know at the first point of contact who to go to, they will not even access an adaptation.” Yna dywedodd sut y bydd yn rhagweld dull o’r fath yn gweithio yn ymarferol:

“[...] we would want one point of access, with collaboration between each of us, recognising that that will probably bring more efficient and faster improvement to the services. It is the first point of contact that we would want, with collaboration then among the key sectors.”³⁹

Darparu Gwybodaeth

84. Roedd nifer o gyfranogwyr yn yr ymchwiliad wedi lleisio pryderon ynghylch diffyg gwybodaeth am y broses addasiadau. Dywedodd Gofal a Thrwsio fod cynnydd wedi’i wneud yn y maes hwn:

“The most significant outcome of that particular review was the information leaflets that we produced with the Older People’s Commissioner for Wales, Age Cymru and the College of Occupational Therapists. I think that one of the recommendations of the review was the need for better information and advice for people who need to access adaptations. We produced hard copies of that, which we distributed across Wales via care and repair agencies and local authorities, and a web-based leaflet. I am not sure whether the committee was aware of that. Although I would say this, would I not, it is a good source of information. All the information in it is accurate. However, as with all information, the important thing is that it reaches the people who need it. I suppose that

³⁸ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

³⁹ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

we need to look at whether that the people who need adaptations, whoever they are—be they owner-occupiers, council tenants or housing association tenants—are getting that information.”⁴⁰

85. Nododd Tai Pawb fod y daflen wybodaeth wedi'i thargedu'n bennaf at y boblogaeth hŷn a bod angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael i'r boblogaeth anabl ehangach.⁴¹

86. Nododd Age Cymru mewn tystiolaeth lafar ei fod yn darparu ystod o ganllawiau i bobl hŷn, a bod nifer o'r ymholiadau sy'n cyrraedd ei linell gyngor yn awgrymu nad yw pobl yn gwybod sut i fynd ati i holi am addasiadau, nac yn gwybod sut fath o addasiadau sydd ar gael iddynt.⁴²

87. Awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru yn ei thystiolaeth lafar: “Better information could be provided at the first point of contact with the client, and the local authority could get all the information they need from the client at that point.”⁴³ Ehangwyd ar y pwynt hwn yn y dystiolaeth lafar:

“One of the areas where we have made recommendations has been around the kind of information that is available to people. Going back to the Neath Port Talbot scenario, a lot has been made of the personal contact at the time, which is not written documentation, but advice about the options that are available and the impacts, because sometimes, with means testing, information about what it is likely to cost you, if that is provided early enough, might actually dictate what choices you are able to exercise as a potential grant applicant.”⁴⁴

88. Dywedodd Tai Pawb wrthym fod y wybodaeth sydd ar gael yn anghyson, gan ddweud:

“It depends on the route you are going down and the local authority or housing organisation that you are with. Some housing providers do not have any of that information on their websites—certainly nothing that is accessible. Others will have

⁴⁰ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁴¹ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

⁴² Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 11

⁴⁴ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

contact details, where you have to physically go to speak to somebody. Local authorities tend to have a quite detailed explanation of the process online, but, again, it is about making that accessible. Wider than that, there are issues about whether the people who you have come out are skilled in providing information for people with learning disabilities and things such as that, and I would question whether they are British Sign Language users.”⁴⁵

89. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd y ddyletswydd arfaethedig ar awdurdodau lleol i roi cyngor ar les (sy'n rhan o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) yn cysylltu ag addasiadau yn y cartref.⁴⁶

Barn y Gweinidog

90. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau addasu. Dywedodd:

“On the care pathway following the exit out of the health service, there is a huge synergy and relationship between health and social services within local authorities. Some local authorities do it really well, but some could do better. That is what we have to try to get underneath. It has always been the case that an action by one department has a consequence for another department. We must ensure that we try to alleviate some of the pressures on health by better use of DFGs et cetera, so that we can get people back into their own homes, if that is appropriate.”⁴⁷

91. O ran ymestyn y gwasanaeth addasiadau brys ar draws deiliadaethau, dywedodd y Gweinidog fod hyn yn cael ei ystyried:

“We have already had discussions with our colleagues in health, and those discussions are ongoing. We have tried to identify a clear means of measuring the success of the rapid response adaptations programme so that we can show evidence of its

⁴⁵ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

⁴⁶ Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

⁴⁷ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

benefits. That work is ongoing, and we are looking at it very closely.”⁴⁸

Ein barn

92. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu'n bendant iawn bod y system addasiadau'n or-gymhleth, gydag atebion gwahanol ar gael yn dibynnu ar ddeiliadaeth, oedran ac ati. Er ein bod yn teimlo na fyddai'n ymarferol disodli'r system bresennol â system newydd nad yw'n ystyried daliadaeth ac oedran, fel yr awgrymwyd gan rai tystion, rydym yn teimlo y gellir gwneud gwelliannau.

93. Pan siaradwyd â defnyddwyr gwasanaeth yn ystod ein hymchwiliad, un o'u prif negeseuon oedd y dylai'r system addasiadau ganolbwyntio mwy ar eu hanghenion. Roeddent yn teimlo bod cymhlethdod y system a'r fiwrocratiaeth yn gysylltiedig â hynny yn atal hyn rhag digwydd. Yn wir, clywsom nad oedd rhai defnyddwyr yn mynd i mewn i'r system hyd yn oed am y rheswm hwn.

94. Awgrymodd nifer o dystion y dylid creu un pwynt mynediad at y system. Rydym yn teimlo y byddai hyn yn gwneud rhywfaint i wneud y system yn fwy ystyriol o'r defnyddiwr. Ein gweledigaeth ar gyfer y dull hwn o weithredu yw y bydd defnyddiwr yn gallu mynd i mewn i'r system drwy un pwynt cyswllt (er enghraifft, dros y ffôn neu'r rhyngwrdd) a bydd gweithwyr proffesiynol yn ymgymryd â'r gwaith cymhleth o ganfod ateb priodol. Rydym hefyd yn credu y bydd hyn yn arwain at ddull mwy cydgysylltiedig o weithredu.

95. Mae nifer o argymhellion eraill yn berthnasol iawn o ran sicrhau bod y dull hwn o weithredu'n effeithiol. Ym Mhennod 5, rydym yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol ddefnyddio asiantaeth i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y rhaglen addasiadau brys i bobl o bob oed ac i gartrefi o bob deiliadaeth. Rydym hefyd wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo ac ymestyn proses garlam ar gyfer mân addasiadau a brosesir y tu allan i'r system Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

96. I gloi, rydym wedi argymhell y dylai rhagor o wybodaeth fod ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaeth, yn enwedig ynghylch eu rôl a'u hawliau unwaith y byddant yn rhan o'r system.

⁴⁸ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CHC, Gofal a Thrwsio a therapyddion galwedigaethol i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno un pwynt mynediad at y system o fewn pob ardal awdurdod lleol, lle nad yw trefniadau o'r fath ar waith yn barod.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael am yr agweddau amrywiol ar y system addasiadau. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth yn egluro rôl a hawliau cleientiaid mewn perthynas ag addasiadau a wnaethpwyd o dan grant cyfleusterau i'r anabl.

Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn a hybu'n fwy gweithredol y broses garlam ar gyfer addasiadau ar raddfa fach a brosesir y tu allan i'r system grant cyfleusterau i'r anabl.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sicrhau bod y rhaglen addasiadau brys ar gael i bobl o bob oed ac i gartrefi o bob deiliadaeth, a dylai ddadansoddi goblygiadau ariannol y dull hwn o weithredu.

5. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Cyflwyniad

97. Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, un o blith nifer o ffyrdd o ddarparu addasiadau yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Diben y bennod hon yw edrych ar faterion yn ymwneud â'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Amrywiadau o ran amseroedd darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

98. Er bod cryn ddadlau ynghylch cywirdeb a defnyddioldeb dangosyddion perfformiad mewn cysylltiad ag addasiadau (trafodir y mater hwn ym Mhennod 6), mae'r dangosyddion, serch hynny, yn dangos dau beth: bod nifer o awdurdodau lleol yn cymryd llawer gormod o amser i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl; a bod y cyfnod cyfartalog y mae'n rhaid aros am grantiau'n amrywio'n arw o'r naill ranbarth i'r llall.

Tabl 1: PSR/002 Darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (2011-12)⁴⁹

diwrnodau

Awdurdod lleol	Cyfnod aros cyfartalog
Ynys Môn	309
Gwynedd	281
Conwy	180
Sir Ddinbych	219
Sir y Fflint	404
Wrecsam	274
Powys	385
Ceredigion	447
Sir Benfro	318
Sir Gaerfyrddin	310
Abertawe	339
Castell-nedd Port Talbot	531

⁴⁹ Dyma nifer **cyfartalog** y diwrnodau calendr i gyflawni addasiadau drwy'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Felly, mae'n cynnwys pob math o addasiad. Dylid cyfrif nifer y diwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl o'r dyddiad y cofnodwyd bod y cleient wedi cysylltu am y tro cyntaf â'r awdurdod lleol, i holi'n benodol am addasiad, y cynigir Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar ei gyfer wedyn tan y dyddiad 'ardystio'. Neu, os yw'r person eisoes yn gleient, dylid ystyried mai'r man cychwyn yw'r dyddiad y bydd naill ai'r cleient neu'r awdurdod yn sôn am y tro cyntaf am yr angen i ymgymryd ag addasiad y cynigir DFG ar ei gyfer wedyn.

Pen-y-bont ar Ogwr	251
Bro Morgannwg	399
Caerdydd	220
Rhondda Cynon Taf	225
Merthyr Tudful	175
Caerffili	333
Blaenau Gwent	306
Torfaen	413
Sir Fynwy	311
Casnewydd	638
Cymru	326

Ffynhonnell: StatsCymru

99. Dywedodd nifer o dystion y bu gwelliant amlwg i'w weld mewn amseroedd aros cyfartalog dros y blynyddoedd diweddaraf os defnyddir y dangosydd perfformiad fel llinyn mesur. Awgrymodd tystion hefyd nad oedd y ffaith bod addasiad wedi'i gwblhau yn yr amser byrraf posibl o reidrwydd yn sicrhau bod yr addasiad yn safonol nac yn briodol. Fodd bynnag, cydnabu fod oedi diangen yn y system.

100. Awgrymodd nifer o dystion nad oedd oedi yn y broses addasu bob amser yn cael ei briodoli i fethiannau ar ran awdurdod lleol, neu, yn wir, i broblem gynhenid gyda'r fframwaith statudol. Nododd y Panel Technegol Tai:

“There is no problem with the system and the processes that we have to follow. You will find that the problem is where cases just sit, and I would imagine that it is for resource reasons in most cases. We can complete the process, from start to finish, for a straight-flight stairlift for example, in around 80 days, as a best-case example. The problem lies in the cases where the case file sits in a tray or in a waiting lounge, whether it is for capital funding or some kind of other resource to go in, and not with the use of best practice.”⁵⁰

101. Cyfeiriodd cynrychiolydd o Gyngor Sir Penfro yn benodol at y prawf modd fel ffactor sy'n achosi oedi:

“When you consider the complexity of the resources test and the number of officers who are involved in that, and the time

⁵⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

taken to do it, it is one of those areas in the system that is bureaucratic, complex and creates delay.”⁵¹

102. Nododd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor fod amrywiadau o ran amseroedd cyflawni ar gyfer addasiadau yn y cartref yn ‘anochel’ mewn system gymhleth sy’n cynnwys nifer o asiantaethau ac adrannau gwahanol.

103. Pwysleisiodd y Panel Technegol Tai ei bod yn naturiol i amseroedd cyflawni a dulliau o weithredu amrywio o’r naill awdurdod i’r llall:

“There are different problems in different local authorities. It may take longer to get around, for geographical reasons, in some local authorities. There are different health profiles, different customer profiles, and different financial circumstances with those customers. There will always be differences with 22 local authorities because of the very nature of those authorities. There may be some issues around practice, but I think that that gap between local authorities is narrowing.”⁵²

104. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru ei bod yn bwysig cydnabod, wrth ddehongli data ar amseroedd cyflawni, fod gwasanaethau addasu yn aml yn cael eu darparu i bobl anabl, sy’n agored iawn i niwed ac y gallai eu hanghenion a’u gofynion newid dros oes y cais am y grant. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd:

“[...] a customer’s decision to pursue an adaptation can be quite difficult and may take time which can add to the length of time taken to deliver the works. In our experience, there are examples where councils will close cases while they wait for an applicant to agree to progress with the adaptation work, only to then start the whole process again when they decide to proceed”.⁵³

Amrywiadau o ran dulliau o weithredu

105. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y modd y mae gwasanaethau addasu awdurdodau lleol yn gweithredu’n amrywio’n arw o’r naill ardal i’r llall. Roedd gan rai “siopau un stop”, tra bod rhai

⁵¹ Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

⁵² Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 11

eraill yn cynnig gwasanaethau “asiantaeth” i helpu’r ymgeisydd anabl drwy’r broses. Mae’n ymddangos nad oedd eraill yn cynnig y naill na’r llall.

Addasiadau ar raddfa fach

106. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 4, roedd nifer o dystion o blaid cael gwared ar addasiadau syml rhatach o’r broses Grant Cyfleusterau i’r Anabl yn gyfangwbl – rhywbeth a argymhellwyd yn Adroddiad Jones yn 2005.

107. Awgrymwyd y dylid darparu mân addasiadau drwy ffyrdd eraill gan ddefnyddio pwerau disgresiwn awdurdodau lleol o dan *Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002*. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â pham nad oedd awdurdodau lleol yn defnyddio’r pwerau hyn, dywedodd Gofal a Thrwsio bod rhai yn gwneud, ond nid pawb.⁵⁴

Asiantaethau mewnol

108. Dywedodd Cyngor Conwy bod dibynnu ar asiantau allanol i brosesu ceisiadau ar ran ymgeiswyr yn creu cryn anhawster⁵⁵, a nododd fod amserlenni wedi gwella ers i’r Cyngor ddefnyddio asiantaeth fewnol (hyd braich) i helpu i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl. Dywedodd Cyngor Merthyr Tudful hefyd:

“Many local authorities do not operate their own in-house home improvement Agency. This leaves the local authority in a difficult position as it is at the mercy of either the client or their appointed private Agent – to complete all the paperwork necessary for the DFG, compilation of tenders, technical drawings, building regulation and planning applications.”⁵⁶

109. Roedd y Panel Technegol Tai yn teimlo y gallai defnyddio asiantaethau mewnol arwain at welliannau sylweddol o ran darparu gwasanaeth:

“[...] in many authorities now, the applicant effectively just signs on the dotted line and all the worry and stress are taken away. The appointment of the builders and the scheduling of

⁵⁴ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 21

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 02

the work is all at arm's length to the client, and all that they need to know is the start date and the builder and they are away to go. When the local authority is in control of the whole process, it works that much quicker as opposed to when it is given to the client and the client has to appoint a builder or has to worry about scheduling the works et cetera. That is when timescales can increase significantly.”⁵⁷

Contractwyr

110. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr broblemau'n ymwneud â'r modd y mae awdurdodau lleol yn caffael contractwyr, gan nodi bod hyn yn cael effaith negyddol enfawr ar amseroedd cyflawni. Nododd hefyd:

“...those local authorities who choose to tender each and every job will inevitably take much longer to deliver adaptation works and those which have a Framework arrangement or a pool of certified contractors from which to appoint a contractor.”⁵⁸

111. Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru yr arsylwadau canlynol mewn cysylltiad â materion caffael:

- Mae rhai awdurdodau lleol yn dal i gaffael drwy gontractau tendr unigol, yn hytrach na chytundebau fframwaith, ac mae hyn yn ychwanegu at oedi; a
- Mae systemau achredu ffurfiol ar gyfer contractio gwaith Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn aml yn ddiffygiol o ran eu ffocws mewn nifer o feysydd gan gynnwys safonau gofal cwsmeriaid (fel cadw at apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus a rheoli sŵn).⁵⁹

Arfer Gorau

112. Nododd y Panel Technegol Tai fod arfer gorau eisoes yn hysbys ac yn cael ei rannu drwy amryw o ffyrdd, gan gynnwys drwy gyfarfodydd y Panel Technegol ei hun. Fodd bynnag, awgrymodd un awdurdod lleol, cyn belled ag y mae arfer gorau yn y cwestiwn, nad yw un arfer o reidrwydd yn addas i bawb.

⁵⁷ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 02

⁵⁹ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

113. Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cynnal eu hadolygiadau eu hunain o'r broses, a'r amlycaf oedd Castell-nedd Port Talbot gyda'i "adolygiad systemau". Wrth roi sylwadau ar y gwaith a wnaed gan yr awdurdod lleol hwnnw, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

"That led to the authority broadening its view and it discovered that the DFG was part of the solution, but not always the solution and that it needed to take a wider picture. You will see in Neath Port Talbot's submission that it was breaking down the process into its core component elements and it was very much trying to measure what it was doing based on whether what it had done had been appropriate for that particular individual. We did not find any benchmarking or any discussion with other authorities when we were doing the work with these three authorities. It tended to be a process-orientated view of what they were doing and how they could do it more quickly."⁶⁰

114. Yn groes i farn rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol, awgrymodd Age Cymru nad oedd arfer gorau yn cael ei weithredu'n gyson a bod hyn yn dangos bod angen "...something at a higher level to ensure that that is taken forward".⁶¹

Gwaith Craffu mewn Awdurdodau Lleol

115. Cyfeiriodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru at ddatblygu arfer da wrth hyfforddi cadeiryddion craffu. Teimlwyd y gallai hyn arwain at well perfformiad. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

"More recently, we have started establishing networks of scrutiny chairs—that is, those who would scrutinise that performance within an authority. At the beginning of this year, we had a full day's seminar for the chairs of housing scrutiny committees. The idea is that we can provide some of those examples, Joyce, to those that will then scrutinise cabinet members in the ruling administrations. So, that information about practice is shared more broadly to enable them to be informed about those opportunities, to pick that up and to question that internally with the authority as well."⁶²

⁶⁰ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

⁶¹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁶² Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

Arweinyddiaeth Gorfforaethol

116. Awgrymodd nifer o dystion fod arweinyddiaeth gorfforaethol yn hanfodol ar gyfer system effeithiol. Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn:

“One of the things that I think is missing sometimes in Wales—is it is not always the case—is strong corporate prioritisation and strong corporate leadership. I have been listening to some of the debate; there are 1,001 little bitty things that need to come together and what we need is strong corporate leadership, public corporate leadership and a public commitment to what a good job well done on aids and adaptations for older people will look like.”⁶³

117. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, awgrymodd Swyddfa Archwilio Cymru y gellid priodoli tanberfformiad i drefniadau rheoli sylfaenol.⁶⁴

118. Dywedodd Nigel Appleton fod yr oedi'n fwyaf amlwg “[...] where there is little corporate ownership or leadership within the local authority process, where it is seated within the silos of housing, legal services, social care and so on”. Yna aeth ati i nodi'r problemau sy'n codi wrth ystyried addasiadau fel problem yn ymwneud â thai yn unig, gan bwysleisio bod angen dull cyfannol o weithredu. Awgrymodd y gellid cyflawni gwelliannau drwy:

“[...] establishing the point of senior leadership within a local authority who will be accountable. My suggestion would be that an accountable officer should be identified in each local authority to carry the overall responsibility for identifying need and for delivering a response, irrespective of how that is funded, and irrespective of who actually does the delivery.”⁶⁵

119. Hefyd, galwodd Gofal a Thrwsio am well atebolrwydd corfforaethol a chyfeiriodd at uwch arweinydd a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb dros ddarparu'r gwasanaeth a sicrhau bod timau eraill yn cydweithio:

“So, if you have accountability for DFGs, for example, in a housing department with a housing manager, it is incredibly

⁶³ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 11

⁶⁵ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

difficult for that person to have influence over, for example, social care colleagues—the occupational therapy team—or planners to fast-track planning applications. Corporate leadership would be a central point of accountability, possibly within the chief executive’s department or wherever it is, for somebody who says, ‘I am accountable and I have authority to make sure that we pull all the different elements from the local authority that are needed to make this into a better service.’”⁶⁶

Cydweithredu

120. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd tystion yn teimlo bod arweinyddiaeth gorfforaethol yn hanfodol o ran datblygu’r gwaith cydweithredol sydd ei angen i sicrhau bod y system yn gweithio’n effeithiol. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru wrthym:

“The main collaborative work tends to be with social care and the housing service. The only one that we are aware of that has an integrated service—we have done work there recently—is Torfaen. However, one of the by-products of that is that its performance, like Neath Port Talbot with the lean system thinking review, has gone down in recent years. So, there has been an increase in time, but I think that that is part of the process of working through how to integrate the two services.”⁶⁷

121. Cyfeiriodd y Panel Technegol Tai at reoli adnoddau yn y cyddestun hwn:

“[...] one of the issues is that you have to really understand what is causing delays, and if you have the wrong idea about what is causing the delay, and you buy in extra resource—say you buy in more OTs and you shift that waiting list—then you suddenly send an enormous pile of referrals across to the grants department, and the grants department suddenly gets a delay. You have to look at it as an entire process. If you know that you have a particular area and you have capacity to deal with it, then that is a solution.”⁶⁸

⁶⁶ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁶⁷ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

⁶⁸ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

122. Er ein bod wedi clywed bod peth gwaith integredig rhwng gwasanaethau, a rhwng tai a gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, roedd llai o dystiolaeth o waith integredig yn ymwneud â gwasanaethau iechyd:

“Health sees DFGs as a solution; that comes up frequently in discussions on an operational level. Strategically, I think that it is recognised as having more of an important role. However, at this time we are not seeing a significant impact in that relationship that is using DFGs in that way.”

123. Nododd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol fod y rhan fwyaf o wasanaethau therapi'n datblygu gwell partneriaethau ar draws gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol yn eu hardal a rhwng awdurdodau lleol cyfagos. Mae Fforwm Cynghori Therapi Galwedigaethol Cymru Gyfan wedi cynhyrchu adroddiad cynnydd yn ymwneud â gwasanaethau therapi galwedigaethol integredig ac mae'n amlinellu rhai o'r datblygiadau arloesol.⁶⁹

Therapyddion Galwedigaethol

124. Fel y clywyd mewn ymchwiliadau blaenorol, cafodd cyfraniad pwysig y therapyddion galwedigaethol ei gydnabod gan nifer o dystion.

125. Roedd y dystiolaeth yn amlygu mai ym marn therapyddion galwedigaethol, dim ond un o ystod o ganlyniadau derbyniol i bobl anabl yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac amcangyfrifodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol mewn tystiolaeth lafar mai dyma yw rhwng tua 20 a 25 y cant o atgyfeiriadau. Mae canlyniadau eraill y gellir eu darparu gan therapyddion galwedigaethol yn cynnwys gwasanaethau ailalluogi, cyngor, cyfeirio pobl at wasanaethau a mathau eraill o gymorth.

126. Gwnaeth Coleg y Therapyddion Galwedigaethol gydnabod y bu cynnydd yn nifer y therapyddion galwedigaethol a gyflogwyd mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli o fewn gwasanaethau addasu tai. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y niferoedd yn amrywio'n sylweddol o'r naill awdurdod i'r llall ac mai dim ond dau therapydd galwedigaethol y mae rhai'n eu cyflogi tra bod y mwyaf yn cyflogi 21. Aeth y Coleg ati i ddweud:

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 09

“They [OT services] are small and frail establishments; not very robust. It only needs one of those two people to go on maternity or sick leave and the whole waiting list grows again. We would say that you do need to look carefully at whether there is sufficient capacity, and whether we have enough OTs.”⁷⁰

127. Clywodd y Pwyllgor fod rhai therapyddion galwedigaethol wedi’u lleoli o fewn gwasanaethau addasu awdurdodau lleol, ond mai dim ond ychydig o gymdeithasau tai sy’n cyflogi eu therapyddion galwedigaethol eu hunain. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, amlygodd Cartrefi Cymunedol Cymru fod cydlynu adnoddau therapyddion galwedigaethol yn effeithiol yn broblem barhaus, a nodwyd y dylai awdurdodau lleol ystyried cronni adnoddau i fynd i’r afael ag anghysondebau.⁷¹

128. Cydnabu nifer o ymatebwyr fod y galw uchel am asesiadau therapyddion galwedigaethol yn cyfrannu at amseroedd aros hirach, ond nododd llawer hefyd ei bod yn bwysig sicrhau bod yr asesiad yn pennu anghenion y cwsmer yn gywir yn hytrach na chyflymu’r broses er mwyn y dangosydd perfformiad.⁷² Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen:

“...the level of OT support can have a significant impact, in some areas there is dedicated OT support for housing adaptations, but not in others. Waiting lists for assessments that need a qualified OT can be problematic and can hold up the delivery of aids and adaptations.”⁷³

129. Amlygodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol fod Cyngor Gofal Cymru yn casglu gwybodaeth gweithlu am therapyddion galwedigaethol fel rhan o’r gwaith o gynllunio ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol cyfan.⁷⁴

130. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu nad oedd therapyddion galwedigaethol yn cael eu defnyddio ym mhob achos pan fo angen addasiadau. Er enghraifft, yn achos addasiadau carlam, gellid defnyddio staff awdurdod lleol neu gymdeithas dai sydd wedi’u

⁷⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 09

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 16

⁷⁴ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

hyfforddi'n briodol i gynnal yr asesiad. Ehangodd Cartrefi Cymunedol Cymru ar y pwynt hwn:

"There is a need to ensure the use of OT resources is effective. Where it works well, it is not necessarily replicated across all locations (e.g. trusted assessors for smaller adaptations, ensuring OT use for complex care cases etc). There is a need to clarify the OT staff role in respect of minor adaptations."⁷⁵

Ein Barn

131. Mae'n amlwg bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r system dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n amlwg na wnaed cynnydd yn ddigon cyflym na chyson ar draws awdurdodau lleol. Mae'r terfynau amser ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gyda chyfartaledd o 326 diwrnod yng Nghymru, yn gwbl annerbyniol. Er ein bod yn cydnabod bod darparu grant yn amodol ar nifer o ffactorau cymhleth, nid ydym yn derbyn y dylid eu defnyddio fel esgus am berfformiad gwael.

132. Er bod arfer da yn cael ei weithredu mewn nifer o awdurdodau lleol, mae'n amlwg o'r dystiolaeth nad yw'n cael ei wneud yn gyson. Oherwydd hyn, rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru archwilio gwasanaethau addasu i nodi arfer gorau ac i ba raddau y caiff ei weithredu. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei ganfyddiadau.

133. Roeddem yn bryderus wrth glywed bod rhai mân addasiadau'n cael eu prosesu drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn hytrach na bod awdurdodau lleol yn gwneud hynny drwy ddefnyddio pwerau disgresiwn o dan y Ddeddf Diwygio Rheoleiddio. Rydym yn teimlo bod y dull hwn o weithredu'n creu biwrocratiaeth ac oedi diangen wrth ddarparu addasiadau. Rydym yn teimlo bod angen canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru i esbonio a ddylai awdurdodau lleol ddefnyddio Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl neu beidio.

134. Rydym yn nodi'r dystiolaeth sy'n dangos y gall amseroedd cyflawni a phrofiad y cwsmer wella os yw awdurdodau lleol yn defnyddio gwasanaethau asiantaeth ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Rydym yn canmol yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi cyflwyno'r mesurau hyn. Rydym yn teimlo y dylid ystyried hyn fel

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

model o arfer da ac felly rydym yn argymhell y dylai pob awdurdod lleol ystyried mabwysiadu dull asiantaeth o weithredu.

135. O ran rôl awdurdodau lleol, rydym yn teimlo y dylid annog pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar berfformiad eu hawdurdodau perthnasol. Rydym yn teimlo bod hyn yn allweddol wrth ddatblygu perfformiad yn gyflym. Hefyd, dylai pob awdurdod lleol benodi uwch swyddog dynodedig i arwain ar addasiadau yn gorfforaethol. Rydym yn teimlo y bydd hyn, fel yr awgrymwyd gan dystion, yn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gweithredu a bydd hefyd yn annog gwasanaethau i gydweithio.

136. I gloi, o ran yr agwedd bwysicaf ar y system, sef y cwsmer, rydym yn teimlo bod angen mwy o eglurhad ynghylch beth y gellir ei ddisgwyl o'r system. Felly, rydym wedi argymhell y dylai pob awdurdod lleol lunio a chyhoeddi siarter cwsmeriaid ar gyfer addasiadau, i amlinellu ei ymrwymadau i breswylwyr yr ardal.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y canllawiau i awdurdodau lleol egluro pryd y dylid gwneud addasiadau drwy'r grant cyfleusterau i'r anabl. Dylai'r canllawiau hyn nodi y dylid defnyddio'r grant cyfleusterau i'r anabl dim ond os dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o wneud addasiadau.

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod lleol, gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lleol, yn llunio siarter cwsmeriaid yn amlinellu ei ymrwymiad i drigolion yr ardal mewn perthynas â gwasanaethau addasu.

Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i ddatblygu dull asiantaeth o weithredu mewn perthynas â grantiau cyfleusterau i'r anabl fel model o arfer gorau, os nad ydynt wedi gwneud hynny yn barod.

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn dynodi uwch swyddog i arwain ar addasiadau yn gorfforaethol.

Dylai Llywodraeth Cymru annog pwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar berfformiad gwasanaethau addasu yn eu hardaloedd o leiaf unwaith bob tymor y cyngor.

Dylai Llywodraeth Cymru archwilio gwasanaethau addasu i nodi arfer gorau a sut y mae'n cael ei weithredu ar draws awdurdodau lleol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei chasgliadau.

6. Monitro perfformiad

Cyflwyniad

137. Un mater allweddol a ddaeth yn amlwg yn ystod yr ymchwiliad oedd monitro perfformiad. Gwnaeth tystion nifer o awgrymiadau i wella'r dangosyddion perfformiad ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a chodwyd rhai pryderon difrifol ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r dangosydd perfformiad presennol.

138. Mae'r dangosydd perfformiad presennol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (PSR/002) yn mesur yr amser aros cyfartalog o'r tro cyntaf y cysylltir â'r awdurdod lleol tan y caiff y grant ei dalu. Mae dangosydd perfformiad arall (PSR/009) yn dadansoddi'r amseroedd aros cyfartalog ar wahân i oedolion a phlant a chyflwynwyd hyn o ganlyniad uniongyrchol i argymhellion 2009. Nid oes dangosydd perfformiad cenedlaethol sy'n dangos amseroedd aros ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai neu awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am addasiadau.

139. O ran effaith cyflwyno'r dangosydd perfformiad ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, roedd Gofal a Thrwsio yn teimlo ei fod wedi cael effaith gadarnhaol a dywedodd wrthym:

“I think that the PI helped that, because the whole point of the PI was that it was not a departmentally led local authority PI, but a PI that was about the client perspective. It was the waiting time from the first point of entry into the local authority, wherever that was, until the work was finished. So, that helped. Colleagues in local government worked together, and, because it was a statutory PI, it was recorded corporately”⁷⁶

140. Ategodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol y farn hon:

“I think that it is reasonable to say that waiting times have gone down, because there has been a focus on the performance indicator for the disabled facilities grant, but as we said in our evidence, that is only a focus on the DFG. We do not have an

⁷⁶ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

all-encompassing monitoring of the performance of all the different routes of adaptations.”⁷⁷

141. Nododd Penaethiaid Cymru o’r Panel Technegol Iechyd Amgylcheddol fod y dangosydd perfformiad mewn cysylltiad â darparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl wedi dangos gwelliant graddol ers 2005/06, a bod cysondeb rhwng awdurdodau, yn eu barn nhw, hefyd wedi gwella:

“Members of the Housing Technical Panel assisted in the development of this performance indicator and from the [...] information it is clear that it has helped to improve delivery times. However based on our experience it remains a very basic indicator as to the quality the services being delivered. A number of local authorities have considered the value of adaptations delivered in terms of health improvement maintaining independence and overall satisfaction of the client.”⁷⁸

Cwmpas cul y dangosyddion perfformiad

142. Un o’r materion a godwyd gan dystion oedd bod y dangosydd yn canolbwyntio ar Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl yn unig ac nad ydynt felly yn rhoi darlun cywir o’r system addasiadau. Nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

“At present, the DFG is the only type of adaptation process for which there is a performance indicator; there is no common approach to monitoring the quality or impact of other adaptation grant routes.”⁷⁹

Effeithiolrwydd a dibynadwyedd y dangosydd perfformiad presennol

143. Awgrymodd rhai awdurdodau lleol fod y canllaw ar gyfer monitro perfformiad yn cael ei ddehongli’n wahanol, a bod man cychwyn a man gorffen y broses yn cael ei ddehongli’n wahanol.

144. Holodd Age Cymru pa mor ddefnyddiol yw’r dangosydd perfformiad:

⁷⁷ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁷⁸ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 24

“Point of entry to completion monitoring simply does not capture the experiences of individuals and give us the more textured detail of where systemic failings may be occurring and at what point. So, developing a far more robust monitoring and evaluation process in relation to adaptations is absolutely critical.”⁸⁰

145. Awgrymodd y Panel Technegol Tai nad oedd y dangosydd perfformiad yn rhoi darlun llawn na chywir o berfformiad:

“We need to understand that it is an average. There is a story behind that. There was another PI, which we measured, for small-scale adaptations outside the DFG process, and we are talking about 10 to 15 days in terms of the small-scale stuff.”⁸¹

146. Nododd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol na fyddai addasiadau a wnaed gan awdurdodau lleol y tu allan i'r broses Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn cael eu hadlewyrchu yn y dangosyddion perfformiad:

“The Regulatory Reform [(Housing Assistance) (England and Wales)] Order [2002] has enabled local authorities to be more creative in providing adaptations or alternative solutions to achieve improved timescales. Examples of this are fast track schemes and relocation grants. Some authorities provide certain types of adaptation through a discretionary grant which removes the need for a means test. Others may use a DFG for a whole range of adaptations, including small works. None of this is made overt in the performance indicator.”⁸²

147. Ar y mater hwn, dywedodd y Panel Technegol Tai:

“In Carmarthenshire, we get 1,000 enquiries a year for DFGs, and only 200 end up with grants because there are other housing solutions for these people.”⁸³

148. Nododd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol nad oedd y dangosyddion perfformiad presennol yn gwahaniaethu rhwng addasiadau syml a chymhleth. Gan ddadlau o blaid rhannu'r

⁸⁰ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁸¹ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁸² Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁸³ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

dangosydd perfformiad yn elfennau i'w gwneud yn haws dadansoddi lle mae'r oedi yn y system, dywedodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol:

“The whole process needs to be measured, but you need to be able to identify very clearly what parts need some amendment in order to slick them up and make them more efficient.”⁸⁴

149. Hefyd, awgrymodd y Panel Technegol y dylai'r dangosydd perfformiad fod yn fwy soffistigedig a, drwy ei rannu'n elfennau, byddai'n haws nodi'r rhwystrau.⁸⁵

150. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r ymchwiliad, awgrymodd y Panel Technegol y dull canlynol o weithredu:

“The existing PI could be broken down and reporting could involve:

- The time taken from initial enquiry (telephone call etc) to provision of an OT assessment.
- The time taken to provide a housing solution as many enquiries for DFGs are resolved in different ways(re-housing, provision equipment and advice)
- The time taken to undertake an adaptation/DFG valued at under £1000, under £3000 over £10,000.”⁸⁶

Monitro boddhad cwsmeriaid

151. Roedd nifer o dystion yn teimlo bod gormod o bwyslais ar y dangosydd perfformiad ar draul profiad y cwsmer. Fodd bynnag, pwysleisiodd Gofal a Thrwsio ei fod wedi'i ddatblygu i fesur y broses o safbwynt y cwsmer – o'r tro cyntaf y bydd yn cysylltu â'r awdurdod lleol tan y dyddiad y caiff yr addasiad ei gwblhau.⁸⁷

152. Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am ddull mwy cyfannol o fonitro addasiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

⁸⁴ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁸⁵ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 14

⁸⁷ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

Ategodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y pwynt hwn a awgrymodd unioni gwaith monitro addasiadau â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.⁸⁸

153. Nododd y Panel Technegol Tai fod peth trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt gyda'r bwriad o wneud gwaith monitro mwy soffistigedig, er y bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer hyn o bosibl:

“A colleague was talking about more in-depth questions: not just, ‘Are you satisfied with the service and the builder et cetera?’, but, ‘How has it affected you; are you able to stay in your own home; and how has it affected your health?’⁸⁹

154. Amlygodd y Panel Technegol ddiffygion posibl mewn system sy'n ceisio cael mwy o fanylion am ganlyniadau, yn enwedig os oedd gwahaniaethau rhwng yr hyn roedd y cleient a'r gweithwyr meddygol proffesiynol yn teimlo oedd yn addasiadau priodol. Nododd: “satisfaction is a subjective thing, and it is difficult to measure.”⁹⁰

155. Nododd Gofal a Thrwsio ei fod eisoes wedi dechrau gwaith monitro sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau ar gyfer ei gleientiaid:

“For the 22 Care and Repair agencies, we have introduced a single framework for asking older people questions about their experience of the service. That will also be needed, because if you introduce a quality-based performance indicator for adaptations for local authorities and housing associations, the same question needs to be asked in the same way.”⁹¹

Monitro canlyniadau tymor hwy

156. Awgrymodd nifer o dystion fod angen monitro canlyniadau tymor hwy. Dywedodd Anabledd Cymru:

“At the moment, success or failure is measured based on how long people wait for a certain grant, but there is no real assessment of how pleased the disabled client is with the adaptation in itself. Maybe you could go back in three or six

⁸⁸ Llywodraeth Cymru [Dull o ddatblygu fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru](#), Tachwedd 2012 [fel ar 14 Chwefror 2013]

⁸⁹ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁹⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁹¹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

months' time to undertake a case study, which is not just a tick-box exercise, about how they feel or how much the adaptation has changed their life for the better, and, if it has not gone quite so well, to consider how lessons can be learned for the future."⁹²

157. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor, awgrymodd y Panel Technegol y dull canlynol fel ffordd bosibl o fonitro canlyniadau yn yr hirdymor:

"A review of a percentage of adaptations delivered (10-20%) in a year to establish if they are being used, improved health and mobility, independence."⁹³

Barn y Gweinidog

158. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hwn, cyfeiriodd y Gweinidog at y dangosydd perfformiad a dywedodd:

"We measure the outcomes using performance indicators to see what they achieve. On whether we are measuring it for the right reason, I am not convinced. We need to look at what performance indicators are. It is all right to say that it is going to take 350 days to put in a DFG for someone, and you tick a box to say that you are within the statutory guidelines."

159. Ychwanegodd: "I am not interested in measuring for the sake of measuring, which takes your eye off the delivery end of this. Let us get on with the delivery and make sure that we are doing it for the right reason."

160. O ran monitro boddhad cwsmeriaid, dywedodd y Gweinidog: "there are high levels of customer satisfaction, but it is not collected centrally". Nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i wneud gwaith pellach yn y maes hwn. Cytunodd hefyd i ystyried gwaith monitro dilynol ymhellach:⁹⁴

Ein barn

161. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod nifer o broblemau gyda'r dangosydd perfformiad presennol. Awgrymodd tystion ei fod yn rhy

⁹² Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 14

⁹⁴ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

gul ac yn gamarweiniol. Er bod nifer o dystion wedi awgrymu bod cyflwyno'r dangosydd perfformiad wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarparu gwasanaeth, mae'n amlwg bod angen diwygio bellach.

162. Roeddem yn falch o glywed bod awdurdodau lleol yn monitro boddhad cwsmeriaid, ond roeddem yn teimlo bod angen cymhwyso hyn yn fwy cyson ac ystyriol. Dylai gwaith monitro o'r fath ddigwydd yn ystod y broses yn hytrach nag ar ôl cyflawni addasiad. Yn ogystal, rydym yn teimlo y dylid rhoi mecanwaith ar waith i fonitro'r gwaith o gyflawni'r addasiad ei hun ac i fonitro ansawdd yr addasiad. Roedd hwn yn fater allweddol i'r defnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw. Os bydd angen, dylid rhoi trefniadau ar waith er mwyn i ansawdd y gwaith gael ei fonitro'n annibynnol.

163. O ran y dangosydd perfformiad ei hun, rydym wedi argymhell y dylid ei ddiwygio ac wedi amlinellu dull posibl o wneud hynny. Mae'r dull yn seiliedig ar gynigion a gyflwynwyd gan y Panel Technegol Tai ac rydym yn teimlo ei fod yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan dystion.

164. Yn ychwanegol, rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir ar sut y dylid dehongli dangosydd perfformiad diwygiedig.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno trefniadau monitro perfformiad ar gyfer pob gwasanaeth addasu ar draws bob deiliadaeth, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, a dylent sicrhau eu bod yn gywir ac yn dryloyw. Dylai trefniadau monitro perfformiad gynnwys:

- Yr amser rhwng yr ymholiad cyntaf ac asesiad gan therapydd galwedigaethol.
- Yr amser a gymerwyd i ddatrys problem yn ymwneud â thai, gan gynnwys gwybodaeth am y broses a ddefnyddiwyd i'w datrys (er enghraifft, drwy ddefnyddio Grant Cyfleusterau i'r Anabl, y rhaglen addasiadau brys neu drwy symud i dŷ arall).
- Yr amser a gymerwyd i wneud addasiad/Grant Cyfleusterau i'r Anabl dros ystod o gostau.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir a manwl am y dangosydd perfformiad newydd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddadansoddi ac y ceir adroddiadau arno'n gyson.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith, fel model o arfer da, mewn awdurdodau lleol i fonitro boddhad cwsmeriaid a chanlyniadau yn y tymor hirach, gan gynnwys y modd y caiff y gwaith ei wneud, a'i ansawdd. Rydym yn disgwyl i foddhad cwsmeriaid gael ei fonitro drwy gydol y broses. Rydym yn disgwyl i brosesau gael eu cyflwyno i sicrhau y gellir monitro ansawdd y gwaith yn annibynnol.

7. Ariannu a darparu adnoddau ar gyfer addasiadau yn y cartref

Cyflwyniad

166. Diben y bennod hon yw ymchwilio i'r dulliau o ariannu addasiadau, yn enwedig drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Grant Cyfleusterau i'r Anabl). Mae'r bennod hefyd yn ymchwilio i ffyrdd eraill o wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r system addasiadau, er enghraifft, drwy ailgylchu offer a chofrestrau tai wedi'u haddasu.

Ariannu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

167. Ariennir Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan awdurdodau lleol o'u hadnoddau cyfalaf cyffredinol. Yn 2010-11, gwariwyd bron £35 miliwn ar y grantiau hyn. Nid yw awdurdodau yn cael unrhyw adnoddau wedi'u neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar eu cyfer. Fel y nodwyd yng ngwaith craffu'r Pwyllgor ar ddyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, bu gostyngiad sylweddol yn nyraniad tybiannol yr adnoddau cyfalaf cyffredinol ar gyfer tai.

168. Nododd y Panel Technegol Tai mai'r awdurdodau lleol sydd â'r amseroedd aros hiraf ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yw'r rhai sydd â'r adnoddau cyfalaf lleiaf. Pwysleisiodd fod cyllidebau o dan bwysau cyson:

“Regarding councils, obviously there are pressures on all budgets. In Merthyr Tydfil, our budget is allocated at around £650,000. It has not been sufficient for a number of years. At the year's end, when we spend just over £1 million, the councils have to find the funds. We are continually under that type of pressure, particularly in smaller authorities, to fund these works. It is a statutory service and we provide the adaptation come what may, but I do not know for how long that will continue, if we get into an overspend position and have to find the funding at the year's end.”⁹⁵

169. Ychwanegwyd bod disgwyl i'r galw gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio, ac achosion o'r math hwn oedd y mwyafrif yn y system.

⁹⁵ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

170. Fodd bynnag, dywedodd fod y ffaith bod y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn grant gorfodol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddiogelu, o ran cyllidebau:

“One of the strengths of the current system is that it is mandatory and the council has to meet that need and that is its strength. It is not the same in the social sector because there is no requirement in relation to that. That is one of the biggest strengths. Those of us who are sitting here are in a lucky position—we are not facing the waiting-for-April scenario.”⁹⁶

171. Awgrymodd rhai tystion y defnyddiwyd amseroedd aros hir, yn ymarferol, fel ffordd o reoli cyllidebau. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru nad yw lefelau ariannu presennol bob amser yn ddigonol i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gorfodol:

“...current investment is not always sufficient to deliver all the mandatory DFGs required and applicants often have to wait considerable time to secure a grant.”⁹⁷

172. Ystyriodd nifer o awdurdodau lleol eraill yr adnoddau gostyngol ar gyfer ariannu addasiadau. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth ariannu hyd yn oed y weithdrefn grantiau orfodol.⁹⁸ Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod y gyllideb sydd ar gael wedi gostwng, ond bod cost cyfartalog y gwaith hefyd wedi lleihau drwy fanylebau tynnach a gwaith caffael effeithiol drwy edrych ar gynnyrch a deunyddiau eraill.⁹⁹

Neilltuo arian

173. Cafwyd ymateb cymysg i'r syniad o neilltuo arian ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Dywedodd Nigel Appleton mai effaith neilltuo yw:

“[...] effectively it puts a cap in place in the mind of the local authority. If that is how much they are given to spend and that is what it is identified for, there is a temptation to think that the funding is even more restricted than it is at present. I am much happier with the endorsement of the statutory

⁹⁶ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

⁹⁷ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 07

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 21

responsibility to find the resources, and to give priority to that, than I would be with a specific budget.”¹⁰⁰

174. Er bod Gofal a Thrwsio wedi awgrymu y gellid ystyried neilltuo arian,¹⁰¹ teimlai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nad oedd neilltuo arian yn galluogi awdurdodau lleol i ddyrannu adnoddau yn ôl blaenoriaethau lleol.¹⁰²

Ariannu o gyllidebau eraill

175. Clywodd y Pwyllgor beth dystiolaeth y gallai gwariant ar addasiadau arwain at arbedion mewn gwariant iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd y Comisiynydd Pobl Hŷn y gall addasiadau amserol olygu arbedion o ran cost ar draws cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol a thynnodd sylw at waith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos hyn. Nododd y gallai lifft grisiau sy'n costio rhwng £300 a £1,000 arbed £30,000 i'r GIG os bydd yn atal rhywun rhag torri ei glun.¹⁰³

176. Pwysleisiodd y Panel Technegol Tai, ynghyd â nifer o ymgynghoreion eraill, pa mor bwysig yw addasiadau i wella canlyniadau iechyd:

“It is our view that there is a role for Welsh Government in exploring the value of adaptations services in Wales via some form of Health Impact Assessment. We are aware of the work being undertaken by Swansea University on the value of improvements to social housing. We are of the view that a similar study would support the view that more resources are required by adaptation services.”¹⁰⁴

177. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym:

“We need to see a combination of actions including the need for a better use of resources and the need to make the clear link between health, housing and social care and look at the integration, for example, of health and social care re adaptations budgets and oversee this. The key aim must be

¹⁰⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹⁰¹ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

¹⁰² Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

¹⁰³ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹⁰⁴ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

sustaining adequate resources in the light of increased demand.”¹⁰⁵

Prawf Modd

178. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae’r defnydd o brawf modd ar gyfer y Grant Cyfleusterau i’r Anabl yn fater sy’n cael ei drafod yn barhaus. Amlygodd adolygiad Llywodraeth Cymru o’r modd y gweithredwyd adolygiad Jones (2010) fod nifer o awdurdodau lleol yn credu nad oedd y prawf modd yn ddefnydd da o adnoddau.

179. Yn ystod ein hymchwiliad, nododd nifer o dystion y mater hwn. Er bod rhai rhanddeiliaid am weld y prawf modd yn diflannu, roedd eraill yn gweld bod angen ei gynnal i atal y “llifddorau” rhag agor. Roedd eraill yn awgrymu y dylai’r prawf modd naill ai gael ei adolygu neu ei ddiddymu.

180. Roedd gan Nigel Appleton bryderon sylfaenol ynghylch yr egwyddor o ddefnyddio prawf modd. Dywedodd:

“[...] we seem to be lodged in what I have described as a welfarism approach, meaning that the process is designed to demonstrate ineligibility rather than eligibility. A great deal of time is spent on demonstrating that people should not have support through, for example, a DFG. If that effort was more directly focused on identifying need and responding to it, the process would be quicker.”¹⁰⁶

181. Cydnabu Cartrefi Cymunedol Cymru fod y prawf modd yn fater cynhennus. Dywedodd:

“In principle the need for adaptations shouldn’t be means tested. Whether means testing was to be simplified or abolished for example, in terms of its use- fairness, bureaucracy and delays need to be looked at. Means testing can be complex and time consuming and potentially inequitable.”¹⁰⁷

182. Dywedodd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, Panel Technegol Tai fod y prawf modd yn cael ei feio weithiau am oedi, ond

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

¹⁰⁶ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

nid oeddent yn teimlo bod hynny'n wir ac roedd y broses, gan amlaf, yn gyflym a syml. Nodwyd hefyd y byddai cael gwared ar y prawf modd yn rhoi pwysau ar adnoddau cyfalaf awdurdod lleol ac y byddai llai o arian ar gael i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.¹⁰⁸

183. Roedd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol yn teimlo y dylid cael gwared ar y prawf modd a theimlai Gofal a Thrwsio fod angen i'r prawf modd gael ei adolygu neu ei ddiddymu. Roedd Nigel Appleton o'r farn y dylai'r system, fan leiaf, fod yn llai beichus. Amlygodd hefyd faterion yn ymwneud â'r gost o weinyddu'r prawf:

“The test of resources, in my judgment, is almost as expensive to administer as any funds that it recovers, and, in some evidence I have seen, it costs more to administer than the funds it recovers. Now, it may be that that is because some people, knowing of the test of resources, do not enter the system in the first place. So, it is difficult to quantify, but I would like to see a pilot scheme at least that quantifies whether there is in fact a cost benefit to clawing that back.”¹⁰⁹

184. Adleisiodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y farn hon a galwodd am ddadansoddiad cost a budd o werth prawf modd i ateb y cwestiwn hwnnw unwaith ac am byth.¹¹⁰

Anghysondeb wrth gymhwyso'r prawf modd

185. Mewn tystiolaeth lafar, awgrymodd Shelter Cymru nad oedd y prawf modd yn cael ei gymhwyso'n gyson.¹¹¹ Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor gadarnhad gan y Gweinidog nad oedd yn ymwybodol o'r mater hwn, a nododd mewn llythyr at y Cadeirydd dyddiedig 15 Mai 2013:

“My officials are not aware of any evidence that the means test is being applied inconsistently across Wales by local authorities and consider any evidence to date to be largely anecdotal. However, they will be raising the issue at the next meeting of the all-Wales Heads of Environmental Health Technical Panel to gauge local authority views on the matter.”

¹⁰⁸ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹⁰⁹ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹¹⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹¹¹ Tystiolaeth lafar, 21 Mawrth 2013

Hunan-ariannu

186. Er nad oedd yn un o brif destunau trafod yr ymchwiliad hwn, roedd rhai darnau o dystiolaeth yn cyfeirio at y rhai a oedd yn talu am addasiadau eu hunain. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys fod sefydliadau'r trydydd sector wedi dod yn fedrus wrth nodi ffynonellau ariannu ar gyfer pobl y mae angen iddynt dalu am addasiadau eu hunain ond nad oes ganddynt yr adnoddau i dalu'n llawn am yr addasiadau angenrheidiol.¹¹²

187. Mewn ymateb i gwestiwn am lefel y cymorth a roddwyd i'r rhai sy'n talu eu hunain, neu'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, dywedodd Gofal a Thrwsio wrthym:

“I suppose that the barriers to them are accessing the sort of professional services that would follow on if you are eligible for the DFG, such as local government surveys. I am not sure about OT assessment. I am sure that they would have a right to the OT assessment. However, the sort of professional services offered by local government and others, but not by Care and Repair, would not be available. Care and Repair, in terms of older people, actually helps self-funders. We will provide our services even though those people are not eligible for the grant. That is becoming an increasing theme of Care and Repair, particularly for disrepair, as opposed to adaptations, where there is hardly any funding available. So, self-funding is really important. We still have to take older people through that process and ask, ‘What works do you need? We need to specify them. Let’s get you a bona fide contractor and make sure that the quality of the works is right.’”¹¹³

Grantiau Addasiadau Ffisegol

188. Gwnaeth y Panel Technegol Tai hefyd amlygu annhegwch posibl yn y system bresennol gan fod mwy o arian ar gael, ar gyfartaledd, i denantiaid cymdeithasau tai ar gyfer addasiadau yn y cartref:

“In 2010/11 housing association tenants who make up less than 10% of households in Wales had access to £8.5m of funding for large scale adaptations via the Welsh Government Physical Adaptation grant (PAGs) scheme. In contrast owner

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 03

¹¹³ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

occupiers and private tenants who make up 82% of households in Wales had access to just over £35m for Disabled Facilities Grants through Local Authorities.”¹¹⁴

189. Cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at Grantiau Addasiadau Ffisegol a dywedodd:

“[...] we have mentioned PAGs, for example, the pot for which has increased from £3 million in 2006 to £8 million now. That is being top-sliced from the social housing grant, which is a decreasing pot in terms of delivering a further supply of housing.”

190. Yna dywedodd:

“[...] it is £8.5 million out of a possible sum of £40 million or £50 million overall that is available to build houses [the Social Housing Grant programme]. We would not want to see that increased.”¹¹⁵

Sefydliadau Trosglwyddo Stoc

191. Disgwylir i gymdeithasau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr (cymdeithasau tai a sefydlwyd ar ôl trosglwyddo stoc) wneud darpariaeth o fewn eu cynlluniau busnes ar gyfer addasiadau gan na allant gael gafael ar arian Grant Addasiadau Ffisegol. Cyflwynir cynlluniau busnes y cymdeithasau hyn yn flynyddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae CHC yn nodi yn eu papur nad yw hyn yn digwydd bob amser:

“Certain LSVTs in Wales do not have funding built into their business plans and therefore the financial burden falls on the local authority which may not be the best option.”¹¹⁶

Cofrestrau Tai Hygyrch

192. Un o’r prif faterion a godwyd mewn adolygiadau blaenorol fu’r defnydd o gofrestrau tai hygyrch. Codwyd y mater hwn hefyd yn nigwyddiad ymgysylltu’r Pwyllgor â defnyddwyr. Dywedodd yr adolygiad o’r modd y gweithredwyd adolygiad Jones (2010) fod cofrestrau tai a addaswyd yn cael eu defnyddio mewn nifer o

¹¹⁴ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹¹⁵ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 23

ardaloedd, ac roedd rhai awdurdodau lleol yn bwriadu ymestyn hyn i gynnwys llety rhent preifat a llety sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi eu datblygiad, nid oes rhaid i awdurdodau lleol gael cofrestr o'r fath.

193. Roedd Anabledd Cymru yn teimlo, mewn cysylltiad â chofrestrau tai hygyrch, nad yw'r cynnydd wedi'i wneud eto. Cyfeiriodd at waith ymchwil a gynhaliodd yn 2009:

“We have seen the benefits that local accessible housing registers have had on disabled people’s lives, and also on cost-efficiency. There are good examples, such as Cardiff Accessible Homes. Again, looking back at our research in 2009, 10 out of the 20 local authorities that responded to our survey said that they had an accessible housing register in place, but others did not.”¹¹⁷

194. Roedd Gofal a Thrwsio yn teimlo bod enghreifftiau o arfer da mewn rhai awdurdodau lleol, ond nad oedd yn gyson. Dywedodd:

“There are some good examples in Wales, such as the Cardiff accessible housing register and Swansea’s ADAPT project, where local authorities are working in partnership with housing associations. The project is about keeping good records of properties that have been adapted, keeping registers of people who need adapted housing and matching them when those properties become available to let. That is good practice, but it does not happen across Wales.”¹¹⁸

195. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, galwodd Diverse Cymru am wneud cofrestrau tai wedi'u haddasu yn ofyniad cyfreithiol.¹¹⁹

196. Er bod yr egwyddor o gofrestrau tai hygyrch yn cael ei chefnogi'n eang, amlygodd rhai tystion yr anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â'r dull hwn o weithredu. Dywedodd Nigel Appleton fod angen i'r cofrestrau fod yn soffistigedig, os ydynt am fod yn effeithiol:

“As far as reusing adapted property is concerned, it is not always as straightforward as it seems, of course, in that a generic adaptation will not necessarily meet exactly the needs

¹¹⁷ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

¹¹⁸ Tystiolaeth lafar, 7 Mawrth 2013

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 10

of the next occupant without further work and expenditure. I am thinking of the example of some homes that I went to look at a number of years ago that were built for people in wheelchairs. The first occupant was someone who was born with a growth defect and was around four feet high, but the next occupant was someone who was 6 feet, 6 inches who had been in a car crash, so all of the heights and so on did not work for that individual and major change was needed.”¹²⁰

197. Awgrymodd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol ei bod yn anodd sicrhau bod tai wedi’u haddasu yn parhau i fod ar gael i berson anabl pan fydd yn wag:

“There is a lot of pressure put on the housing department not to hold a void property, and I think that that is partly the issue, because the pressure is there and you cannot have it empty for any length of time. There is not always sufficient time to find the appropriate person. You might need a couple of weeks to find someone if you do not have someone sitting there waiting. That is when the houses get used inappropriately, because of that pressure to avoid holding a void property.”¹²¹

198. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am amseroedd ail-osod yn genedlaethol, ond mae gwaith ymchwil ar gyfer y Pwyllgor hwn yn awgrymu bod sawl wythnos neu fis yn mynd heibio cyn y caiff tŷ cymdeithasol ei ail-osod.

199. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Tai Pawb y gallai newidiadau i fudd-daliadau tai’r tenantiaid tai cymdeithasol hynny sydd o oedran gweithio, ac sy’n tanfeddiannu eu cartrefi, effeithio’n andwylol ar y gwaith o weithredu cofrestrau tai hygyrch:

“Welsh Government continues to support the use and establishment of Accessible Housing Services in Wales (Framework for Action on Independent Living) however the unintended consequence of housing benefit reform and under occupation changes mean that the efficiency of such services is called into question. Previously Accessible Housing Services have operated on a best match or best fit approach which could result in under-occupancy. In effect the primary driver had

¹²⁰ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

¹²¹ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

been to provide the disabled person with a property which best matched their access needs in terms of adaptations.”¹²²

Ailgylchu offer

200. Soniodd nifer o dystion am ailgylchu offer. Dywedodd Cyngor Sir Conwy wrthym ei fod yn gweld ailgylchu offer fel ffordd o fod yn fwy effeithlon, gan gynnwys ailgylchu lifftiau grisiau a theclynnau codi. Nododd Coleg y Therapyddion Galwedigaethol na chaniateir ailgylchu hen offer fel lifftiau grisiau pan ddarperir Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Dywedodd:

“The problem with the private sector and the disabled facilities grant is that you cannot recycle old stock under a DFG—the equipment has to be new. In our authority, we will use it in public sector stock. You cannot recycle some items; if it is a purpose-built stairlift, for example, you may not be able to recycle it.”¹²³

201. O ran ailgylchu offer, dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru wrthym:

“We do recycle stairlifts. This year, so far, we have fitted three that we have recycled, because they were taken out in very good condition. We store them and we get somebody to refurbish them to make sure that they are fit for use for the new resident. The accessible housing registers are a very good tool, if they are used right. Most local authorities are moving to common housing registers. We are working with them to try to ensure that adapted property information is captured on those.”

202. Yna dywedodd:

“However, what tends to happen is that where you have a property that becomes vacant and has had an adaptation, sometimes it slips through the net. In addition, the people who are sent to us from common waiting lists might not need to have an adapted property. However, one of those people may be on the homeless register and they have to accept something quickly. So, they will accept it, but it may be a three-bedroomed

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, addasiadau yn y cartref 20

¹²³ Tystiolaeth lafar, 27 Chwefror 2013

house with a walk-in, level-access shower and they have four children. We then have to rip that out and put a bath in. You cannot reuse those showers. We have been looking at trying to reuse systems, but it is not always possible, unfortunately. It is not quite right, but it is getting better in some areas. There is still a lot of work to be done on that.”¹²⁴

Barn y Gweinidog

203. O ran maint y ddarpariaeth ariannol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn teimlo ei bod yn briodol. Ychwanegodd mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol oedd penderfynu sut y defnyddiwyd yr arian.

“If they choose to spend more on DFG and on a demand-led budget, that is entirely up to them. However, the consequence of that is that there is less money to spend on the other element. So, there is a block of money on which they make their choice. I do not think that that is a stop in terms of the headroom and making their priorities for DFG if they should so wish.”

204. O ran cofrestrau tai hygyrch, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod peth buddion i'r dull hwn o weithredu. Fodd bynnag, o ran cofrestr genedlaethol, dywedodd:

“From a data collection perspective, I do not quite know why we would collect data on a national basis. Currently, we operate, in terms of local authorities, on the basis of 22 local authorities, and their housing policies, et cetera, are all individual, so the use of a national database would be pretty insignificant. If it were to be based on housing allocation or on DFGs on a regional or national basis, there would be some advantage to that, but, generally, it is about local need and provision. I can understand, therefore, a local authority collecting and using those data, but I am not sure of the value of collecting data on a national basis—it would be collecting data for the sake of it.”

¹²⁴ Tystiolaeth lafar, 13 Mawrth 2013

205. Yna aeth y Gweinidog ati i ddweud ei fod yn teimlo y byddai cynnwys y sector preifat mewn cofrestrau tai hygyrch yn ddefnyddiol, ond bod y materion ymarferol yn golygu bod hynny'n afrealistig.¹²⁵

Ein barn

206. O ran ariannu addasiadau, mae'n glir y bydd cyllid ar gyfer gwasanaethau addasu'n dod o dan bwysau cynyddol yn y blynyddoedd i ddod. O ystyried yr effaith gadarnhaol y gall system addasiadau effeithiol ei chael ar wasanaethau eraill (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol), rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a yw'r cyfraniadau o gyllidebau'r gwasanaethau hynny i wasanaethau addasu'n briodol.

207. O ran gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, rydym hefyd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer addasiadau. Rydym hefyd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymdeithasau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr wedi gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer addasu tai yn eu cynlluniau busnes.

208. O ystyried llwyddiant y Grant Byw'n Annibynnol, rydym hefyd yn teimlo y dylid parhau i'w ariannu ac y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid ymestyn y rhaglen.

209. O ran cofrestrau tai hygyrch, rydym yn teimlo y gall y rhain gael effaith gadarnhaol a dylid eu gweithredu fel model o arfer da. Rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid defnyddio'r cynllun i drwyddedu landlordiaid ac asiantau, y bwriedir ei ddatblygu yn y Bil Tai sydd ar gweill, i gynnwys y sector rhent preifat ar gofrestrau tai wedi'u haddasu. Rydym hefyd yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud i ailgylchu offer.

210. I gloi, o ran cymhwyso'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, rydym wedi ein darbwylllo bod angen gwneud mwy o waith i gloriannu ei werth ac rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud dadansoddiad cost a budd llawn ohono.

¹²⁵ Tystiolaeth lafar, 17 Ebrill 2013

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw cyfraniadau o gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol i addasu tai yn briodol i wella canlyniadau i gleifion.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud dadansoddiad cost a budd o'r prawf modd ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar ei chasgliadau.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyllido'r rhaglen Grant Byw'n Annibynnol, ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ymestyn y rhaglen.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl brosesau Trosglwyddo Stoc ar Raddfa Fawr yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer addasu tai yn eu cynlluniau busnes.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer addasiadau.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud cofrestrau tai hygyrch yn ofyniad statudol. Dylai hyn gynnwys yr holl dai cymdeithasol. Hefyd, dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gellir defnyddio'r Bil Tai sydd yn yr arfaeth i gynnwys llety rhent preifat ar gofrestrau o'r fath.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r asiantaethau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r broses addasiadau i sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o gyfleoedd i ailgylchu offer.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn: <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ielIssueDetails.aspx?Ild=4667&Opt=3>

27 Chwefror 2013

Ruth Crowder, Swyddog Polisi	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Helene Mars, Cynrychiolydd Cymru, Adran Arbenigol Coleg y Therapyddion Galwedigaethol - Tai	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Neil Abraham, Cadeirydd Grŵp Cynghori Therapyddion Galwedigaethol Cymru Gyfan (COTAG)	Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Jonathan Willis, Rheolwr Tai, Cyngor Sir Caerfyrddin	Penaethiaid Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru - Panel Technegol Tai
Owain Roberts, Rheolwr Tai Sector Preifat, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Penaethiaid Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru - Panel Technegol Tai
Julian Pike, Rheolwr Adnewyddu Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	Penaethiaid Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru - Panel Technegol Tai
Sarah Rochira	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Nigel Appleton	Academydd

7 Mawrth 2013

Rhyan Berrigan, Swyddog Polisi	Anabledd Cymru
Miranda French, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus	Anabledd Cymru
Chris Jones, Prif Weithredwr	Gofal a Thrwsio
Martyn Jones, Cynghorydd Polisi Cydraddoldeb	Age Cymru

Wyn Jones, Rheolwr Gwybodaeth a Chyngor Age Cymru

13 Mawrth 2013

Sioned Hughes, Cyfarwyddwr Polisi ac Adfywio Cartrefi Cymunedol Cymru

Nikki Cole, Pennaeth Datblygu, Cymdeithas Tai Wales & West Cartrefi Cymunedol Cymru

Shirley Davies, Cyfarwyddwr Cartrefi a Chymdogaethau, Cartrefi RCT Cartrefi Cymunedol Cymru

Steve Barry, Rheolwr Archwilio Perfformiad - Ardal Llywodraeth Leol Swyddfa Archwilio Cymru

Nick Selwyn, Arweinydd Archwilio Perfformiad - Llywodraeth Leol Swyddfa Archwilio Cymru

Emma Reeves-M^cAll, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tai Pawb

21 Mawrth 2013

Ivor Jones, Rheolwr Gwelliannau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Jim Stobbart, Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid (Tai'r Sector Preifat) Cyngor Sir Penfro

Steve Kidwell, Prif Swyddog Adnewyddu Tai, Opsiynau Tai a Chymorth Gofal Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Gill Pratlett, Cyd-bennaeth Integreiddio a Gwella Gwasanaethau (Gwasanaethau Oedolion) Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Sue Finch, Swyddog Polisi Tai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Kenyon Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Jennie Bibbings, Swyddog Polisi

Shelter Cymru

17 Ebrill 2013

Carl Sargeant

Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Alyn Williams

Llywodraeth Cymru

Huw McLean

Llywodraeth Cymru

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=2225>

Sefydliad	Cyfeirnod
Tystiolaeth gan aelod o'r cyhoedd	HA 01
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	HA 02
Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys	HA 03
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	HA 04
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	HA 05
Anabledd Cymru	HA 06
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	HA 07
Gofal a Thrwsio Cymru	HA 08
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol	HA 09
Diverse Cymru	HA 10
Swyddfa Archwilio Cymru	HA 11
Coastal Housing Group	HA 12
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	HA 13
Penaethiaid Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru - Panel Technegol Tai	HA 14
Age Cymru	HA 15
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen	HA 16
Cyngor Sir Penfro	HA 17
Y Lleng Brydeinig Frenhinol	HA 18
Penaethiaid Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru	HA 19
Tai Pawb	HA 20
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	HA 21
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	HA 22

Cartrefi Cymunedol Cymru	HA 23
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	HA 24
Nigel Appleton	HA 25
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	HA 26
Shelter Cymru	HA 27
Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Cymru	HA 28
Tony Roper	HA 29
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru : tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol 1	HA 30
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru : tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol 2	HA 31
Cardiff Community Housing Association	HA 32
Llywodraeth Cymru	HA 33